



# **Amodau Teithio National Rail**

O 1 Ebrill 2026 ymlaen

# AMODAU TEITHIO NATIONAL RAIL

Teitl	Rhif y Dudalen
Rhan A: Crynodeb o'r Amodau	3
Rhan B: Cyflwyniad	4
<b>Amodau</b>	
Rhan C: Cynllunio eich taith a phrynu eich Tocyn	5
Rhan D: Defnyddio eich Tocyn	12
Rhan E: Eich Taith ar y Trên	15
Rhan F: Eich hawliau i gael ad-daliad ac iawndal	21
Rhan G: Amodau Arbennig sy'n berthnasol i Docynnau Tymor	26
Rhan H: Eiddo Coll	29
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad A: Rhestr o Gwmnïau Trenau y mae Amodau Teithio National Rail yn berthnasol iddynt ar 23 Tachwedd 2026	30
Atodiad B: Diffiniadau	31
Atodiad C: Cod Ymarfer: <i>Trefniadau ar gyfer cyfweiliadau ag ymgeiswyr mewn perthynas â Thocynnau Tymor dyblyg</i>	34

Mae'r Amodau Teithio National Rail hyn yn berthnasol o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Mae unrhyw gyfeiriad at **Amodau Cludiant National Rail** ar wefanau, Tocynnau, cyhoeddiadau ac ati yn cyfeirio at yr Amodau Teithio National Rail hyn.

## Rhan A: Crynodeb o'r Amodau

Mae'r telerau ac amodau ar gyfer yr Amodau Teithio National Rail hyn yn cael eu nodi isod yn Rhan C i Ran H (yr "**Amodau**"). Mae'r rhain, ynghyd â thelerau ac amodau'r Tocynnau penodol ac unrhyw Gerdyn Rheilffordd neu hawl gostyngiad arall sydd gennych, yn cynnwys y contract rhwymol sy'n dod i rym rhyngoch chi a'r Cwmnïau Trenau<sup>1</sup> sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd rheolaidd ar Rwydwaith National Rail, pan fyddwch yn prynu Tocyn. Mae telerau ac amodau Tocynnau, Cardiau Rheilffordd a chynnyrch arall yn cael eu darparu mewn gorsafoedd lle ceir staff, gan fanwerthwyr ar-lein ac ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk).

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg cyflym o gyfrifoldebau allweddol Cwmnïau Trenau a theithwyr sydd i'w cael yn y contract.

Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn darllen yr Amodau os ydych am gael dealltwriaeth lawn o gyfrifoldebau Cwmnïau Trenau a theithwyr.

Rydyn ni wedi cynnwys nifer o baneli 'gwybodaeth' a/neu droednodiadau i'ch helpu i ddeall ystyr rhai Amodau. Sylwch fod y troednodiadau hyn yma i roi esboniadau yn unig ac nad ydynt yn rhan o gontract Cwmni Trenau gyda chi.

Dyma brif gyfrifoldebau Cwmnïau Trenau ('**ni**):

- Cyn gadael ac yn ystod eich taith, byddwn yn darparu gwybodaeth a fydd yn eich helpu i gynllunio a chwblhau eich taith yn llwyddiannus ar Rwydwaith National Rail. Lle bo modd, bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd y gall pobl sydd ag anawsterau golwg a/neu glywed ei deall.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth glir am yr amrywiaeth o Docynnau i'ch helpu i wneud dewis gwybodus am y Tocyn mwyaf priodol, sy'n cynnig y gwerth gorau ar gyfer eich taith.
- Byddwn yn darparu amrywiaeth o ffyrdd y gallwch brynu Tocyn cyn eich taith a byddwn yn sicrhau eich bod yn cael eich trin yn deg os na allwch brynu Tocyn oherwydd nad yw'r cyfleusterau a hysbysebwyd ar gael.
- Os oes gennych chi anabledd, byddwn yn darparu cymorth ar gais i helpu i sicrhau eich bod yn mwynhau eich taith ar Rwydwaith National Rail am ddim cost ychwanegol.
- Os bydd pethau'n mynd o chwith, byddwn, o dan yr amgylchiadau a nodir yn y ddogfen hon isod, yn ad-dalu eich Tocyn, yn talu iawndal i chi, yn gwneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd adref drwy ddull cludiant arall neu'n darparu llety dros nos i chi.

Dyma brif gyfrifoldebau teithwyr ('**chi**):

- Rhaid i chi brynu Tocyn dilys, lle bo hynny'n bosib, cyn mynd ar wasanaeth trên ar Rwydwaith National Rail.
- Rhaid i chi ofalu am eich Tocyn a'i gyflwyno i'w archwilio pan fydd aelod o staff y rheilffordd yn gofyn amdano.
- Rhaid i chi ddefnyddio eich Tocyn yn unol â'r telerau ac amodau penodol sy'n gysylltiedig ag ef (er enghraifft, efallai y bydd eich Tocyn wedi'i gyfyngu i lwybrau penodol neu adegau penodol).
- Ni ddylech ymddwyn yn wrthgymdeithasol nac yn droseddol wrth ddefnyddio Rhwydwaith Network Rail.

---

<sup>1</sup> Mae diffiniad o'r geiriau mewn priflythrennau yn Atodiad B

## Rhan B: Cyflwyniad

Pan fyddwch chi'n prynu Tocyn i deithio ar wasanaethau trenau wedi'u trefnu ar Rwydwaith Network Rail, rydych chi'n ymrwmo i gcontract cyfrwymol gyda phob un o'r Cwmnïau Trenau y mae eich Tocyn yn caniatáu i chi ddefnyddio eu trenau. Mae'r Amodau'n nodi hawliau a rhwymedigaethau teithwyr a'r Cwmnïau Trenau a restrir yn Atodiad A.

Mae copiâu o'r Amodau hyn ar gael ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk), ar wefannau'r holl Gwmnïau Trenau a Manwerthwyr Trwyddedig ac, ar gais, o unrhyw Swyddfa Docynnau sydd â staff.

Mae'r Amodau hyn yn berthnasol i deithio o fewn Prydain Fawr yn unig ac fe'u rheolir gan gyfraith Cymru a Lloegr, ac eithrio pan brynir Tocyn yn yr Alban ar gyfer teithio'n gyfan gwbl yn yr Alban, ac os felly Cyfraith yr Alban fydd yn llywodraethu'r Amodau hyn. Yn ogystal â'r Amodau hyn, mae gennych hefyd hawliau o dan y Rheoliad Hawliau a Rhwymedigaethau Teithwyr Rheilffyrdd, fel y mae'n berthnasol yng nghyfraith Prydain Fawr, gan gynnwys y 'Rheolau Unffurf sy'n ymwneud â'r Contract ar gyfer Cludo Teithwyr a Bagiau yn Rhyngwladol ar y Rheilffyrdd' (sy'n aml yn cael ei alw'n 'CIV'). Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau CIV ar gael ar [www.otif.org](http://www.otif.org) neu gallwch ofyn am fanylion mewn Swyddfa Docynnau mewn gorsaf.

Rydyn ni wedi ceisio gwneud yr Amodau mor syml a hawdd eu deall â phosib. Fodd bynnag, gan eu bod yn gcontract sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhwng Cwmnïau Trenau a theithwyr, weithiau mae'n rhaid i ni ddefnyddio ymadroddion cyfreithiol. Er mwyn ei gwneud yn haws i ddeall yr Amodau, rydyn ni'n defnyddio rhai geiriau mewn **prif lythrennau**, a rhoddir diffiniad ohonynt yn Atodiad B a, lle bo hynny'n briodol, rydyn ni'n rhoi rhywfaint o esboniad o rai ymadroddion cyfreithiol.

Os byddwch yn torri'r Amodau hyn, efallai y byddwch yn agored i gamau gorfodi gan y Cwmnïau Trenau, gan gynnwys atebolrwydd troseddol mewn rhai amgylchiadau fel y nodir isod.

Pan fyddwch chi mewn gorsafoedd, ar wasanaethau trenau neu ar gyfleusterau eraill ar Rwydwaith Network Rail, rydych chi hefyd yn rhwym wrth Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd. Mae copi o'r rhain ar gael ar [www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws](http://www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws) neu gallwch ofyn am fanylion mewn Swyddfa Docynnau mewn gorsaf.

Sylwch nad oes gan staff Cwmni Trenau na staff Manwerthwr Trwyddedig, yr awdurdod i hepgor na newid yr Amodau oni bai fod yr amodau'n caniatáu'n benodol iddynt wneud hynny.

I gael manylion eich hawliau dan yr Amodau hyn i gael eich arian yn ôl ac i wneud hawliadau eraill, gweler Rhan F isod. Mae'r rhan fwyaf o Gwmnïau Trenau'n gweithredu **Siarter Teithwyr** sy'n cynnig hawliau ychwanegol i deithwyr ar eu gwasanaethau. Mae'r rhain ar gael ar wefan pob Cwmni Trenau.

Os aiff pethau o chwith, mae gennych hefyd hawliau statudol yn ogystal â'r trefniadau diwydiant a nodir o dan yr Amodau hyn a Siarteri Teithwyr. Er enghraifft, mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn rhoi amryw o hawliau i ddefnyddwyr, e.e. hawliau lle nad yw gwasanaeth yn cael ei gyflawni gyda gofal a sgiliau rhesymol. I gael gwybodaeth am eich hawliau pan fyddwch yn teithio fel defnyddiwr, gan gynnwys o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, ewch i [www.gov.uk/consumer-protection-rights](http://www.gov.uk/consumer-protection-rights).

Os nad ydych chi'n fodlon bod Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd wedi delio â'ch cwyn yn deg, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Rheilffyrdd yn [www.railombudsman.org](http://www.railombudsman.org) neu dros y ffôn ar 0330 094 0362 neu drwy'r post i'r Ombwdsmon Rheilffyrdd, 1st Floor, Premier House, Argyle Way, Stevenage, Hertfordshire, SG1 2AD.

# Amodau

## Rhan C: Cynllunio eich Taith a Phrynu eich Tocyn

### 1. Cynllunio eich Taith

- 1.1 Byddwn yn eich helpu i gynllunio eich taith ar Rwydwaith Network Rail drwy ddarparu gwybodaeth am amseroedd trenau, yr amrywiaeth o Docynnau sydd ar gael i chi eu prynu, y gorsafoddedd y gallech chi eu defnyddio a gwybodaeth berthnasol arall fel trefniadau ad-daliadau ac iawndal.
- 1.2 Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth fwy penodol am faterion cysylltiedig fel y cymorth ychwanegol a ddarperir i deithwyr ag anabledd neu fynd â'ch beic neu'ch bagiau ar y trêen.

### 2. Prynu eich Tocyn

- 2.1 Rydyn ni eisiau i chi wneud dewis gwybodus wrth brynu eich Tocyn, a theimlo'n hyderus eich bod wedi prynu'r Tocyn mwyaf priodol ac wedi cael y gwerth gorau ar gyfer eich taith.
- 2.2 Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o Docynnau y gellir eu prynu ar gael o orsafoddedd rheilffordd sydd â staff, gan Fanwerthwyr Trwyddedig ac ar [www.nationalrail.co.uk/tickets-railcards-and-offers](http://www.nationalrail.co.uk/tickets-railcards-and-offers).
- 2.3 Wrth brynu eich Tocyn, byddwn yn darparu gwybodaeth am gyfyngiadau penodol sy'n berthnasol i'ch Tocyn (er enghraifft y gwasanaethau trenau y gallwch ddefnyddio eich Tocyn arnynt neu'r llwybr(au) y mae gennych hawl i'w defnyddio) a, lle bo'n bosib, unrhyw newidiadau y gwyddom amdanynt i'r gwasanaethau a gynlluniwyd.
- 2.4 Ar ôl i chi brynu eich Tocyn, dylech wneud yn siŵr bod gennych chi'r Tocyn(nau) cywir ar gyfer y daith rydych chi'n bwriadu ei gwneud. Os ydych chi'n meddwl bod y Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig a werthodd y Tocyn i chi wedi gwneud camgymeriad, dylech ddweud wrthynt cyn gynted â phosib.

### 3. Cadw Seddi

- 3.1 Mae'n bosib cadw seddi ar lawer o wasanaethau trenau. Os felly, bydd yn cael ei ddangos fel arfer yn yr wybodaeth am yr amserlen a ddarperir gan National Rail Enquiries, Cwmnïau Trenau, Manwerthwyr Trwyddedig a darparwyr gwybodaeth eraill.
- 3.2 Mae rhai mathau o Docynnau (er enghraifft Tocynnau "advance") yn mynnu eich bod yn cadw sedd wrth brynu eich Tocyn. Ar gyfer Tocynnau eraill, gallwch ofyn i gadw lle naill ai wrth brynu Tocyn, neu cyn i'ch trêen adael pan fyddwch chi'n cyflwyno Tocyn dilys, yn y rhan fwyaf o orsafoddedd sydd â staff. Caniateir dim mwy nac un sedd i bob unigolyn ar gyfer pob trêen sy'n rhan o'ch taith.

**GWYBODAETH:** Mae seddi ar gyfer gwasanaethau lle gellir cadw seddi ar gael fel arfer hyd at ddwy awr cyn i'r trêen adael (neu hyd at y diwrnod blaenorol ar gyfer trenau sy'n gadael yn gynnar iawn yn y bore). Holwch y Cwmni Trenau i gael manylion yr amseroedd archebu diweddaraf ar gyfer gwasanaeth penodol.

- 3.3 Oni bai eich bod wedi cadw sedd, sylwch nad yw eich Tocyn yn rhoi hawl awtomatig i chi gael sedd, ac efallai y bydd yn rhaid i chi sefyll ar adegau prysur. Ni fydd gennych hawl i gael ad-daliad yn yr achosion hyn oni bai bod gennych Docyn dosbarth cyntaf ac nad oedd seddi dosbarth cyntaf ar gael ar wasanaeth trên lle'r oedd yr amserlen yn nodi y byddai seddi dosbarth cyntaf yn cael eu darparu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Amod 31 am yr ad-daliad y mae gennych hawl iddo dan amgylchiadau o'r fath.

#### **4. Eich Tocyn**

- 4.1 Pan fo'n bosib gwneud hynny, rhaid i chi brynu neu ddal Tocyn dilys ar gyfer y daith lawn rydych chi'n bwriadu ei gwneud cyn mynd ar drên i deithio ar unrhyw wasanaeth a ddarperir gan y Cwmnïau Trenau. Mae eich Tocyn yn brawf o'ch hawl i deithio ar y Rhwydwaith National Rail, fel y mae'r math o Docyn rydych chi wedi'i brynu yn caniatáu. Eich cyfrifoldeb chi yw ei gadw'n ddiogel a dylech gymryd gofal amdano.
- 4.2 Cedwir rhai Tocynnau fel cofnod electronig ar gerdyn clyfar neu ddyfais electronig neu gellir eu trosglwyddo i chi er mwyn i chi eu dangos neu eu hargraffu eich hun. Mewn achosion o'r fath, rhoddir gwybod i chi am yr amodau penodol sy'n berthnasol i Docynnau sy'n cael eu dal yn y fformatau hynny (ac mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw).
- 4.3 Dim ond gan Gwmni Trenau neu Fanwerthwr Trwyddedig y cewch chi brynu eich Tocyn, neu efallai na fydd yn ddilys.
- 4.4 Mae rhai Tocynnau'n rhoi hawl i chi gael nwyddau neu wasanaethau gan barti arall (er enghraifft, yr hawl i deithio ar wasanaethau bysiau). Os felly, mae eich Tocyn hefyd yn dystiolaeth o gontract rhyngoch chi a'r parti arall hwnnw, y bydd eu hamodau eu hunain yn berthnasol wrth ddefnyddio eu gwasanaethau.
- 4.5 Os byddwch chi'n colli neu'n anghofio lle rydych wedi rhoi Tocyn neu os caiff ei ddwyn, dim ond os bydd modd canslo'r Tocyn gwreiddiol y gallwch ei gyfnewid neu (yn dibynnu ar yr amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r Tocyn) gael ad-daliad. Mewn achosion o'r fath, dylech wneud cais i'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig y prynoch y tocyn ganddynt.
- 4.6 Mae amodau arbennig yn berthnasol i Docynnau Tymor ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Rhan G.
- 4.7 Ni ddylech ymyrryd â Thocyn mewn unrhyw ffordd. Os byddwch yn gwneud hynny, ni fydd yn ddilys ar gyfer teithio.
- 4.8 Os caiff Tocyn ei ddifrodi i'r graddau nad oes modd ei ddarllen ac na ellir (lle bo'n berthnasol) ei sganio na'i ddilysu fel arall, ni fydd yn ddilys ar gyfer teithio. Fodd bynnag, os byddwch chi'n ei ddychwelyd i'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig a'i gwerthodd i chi, byddant yn trefnu i chi gael Tocyn newydd oni bai fod rheswm dros amau ei fod wedi'i ddefnyddio, neu y bydd yn cael ei ddefnyddio, at ddibenion twyllodrus neu amhriodol. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi weinyddol resymol (heb fod yn fwy na £10) i gael y tocyn newydd.

#### **5. Trosglwyddo Tocynnau**

- 5.1 Mae hawl gan y sawl sydd wedi prynu Tocyn i drosglwyddo'r Tocyn hwnnw i berson arall, ond dim ond os:
- 5.1.1 nad yw'r Tocyn wedi'i roi yn enw'r teithiwr (sy'n cynnwys pan fydd y teithiwr yn cael ei adnabod drwy Gerdyn Rheilffordd dynodedig, cerdyn-llun neu ddull adnabod arall);
  - 5.1.2 nad yw'r daith wedi dechrau, er enghraifft, nid ydych chi wedi pasio drwy giât Tocynnau awtomatig, wedi mynd ar drên, nac wedi dechrau defnyddio'r Tocyn (e.e. wedi defnyddio rhan gyntaf Tocyn dwyffordd);

5.1.3 nad yw'r trosglwyddiad yn cael ei ailwerthu am fwy na'r pris a dalwyd am y Tocyn gan y person a'i prynodd gyntaf gan Gwmni Trenau neu Fanwerthwr Trwyddedig.

5.2 Mae Tocyn sy'n cael ei drosglwyddo'n ddilys yn parhau i fod yn destun yr amodau teithio a oedd yn berthnasol iddo'n wreiddiol.

## 6. Eich gofyniad i gael tocyn teithio dilys

**GWYBODAETH:** Er mwyn bod yn ddilys, rhaid gweithredu neu ardystio rhai Tocynnau gyda dyddiad teithio cyn i chi fynd ar drên. Nodir hyn yn glir yn nhelerau ac amodau'r Tocynnau hynny.

Mae 'Tocyn' yn cynnwys cerdyn talu digyswllt dilys lle mae'n cael ei dderbyn. Mae'r diffiniad o 'Docyn' yn Atodiad B yn rhoi rhagor o wybodaeth.

6.1 Rhaid i chi fod â Thocyn neu awdurdod dilys i deithio ar gyfer y daith rydych chi'n bwriadu ei gwneud **cyn i chi fynd ar drên**, oni bai fod un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol ar y pryd yn yr orsaf rydych chi'n gadael ohoni:

6.1.1 Nid oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer cyhoeddi'r Tocyn rydych chi ei angen nac awdurdod arall i deithio naill ai oherwydd nad oedd swyddfa docynnau ar agor neu nad oedd peiriant tocynnau hunan-wasanaeth yn gweithio, neu na fyddai'n derbyn eich unig ddull talu sydd ar gael (cerdyn neu arian parod);

6.1.2 Roedd hysbysiad yn yr orsaf yn caniatáu i chi ddechrau ar eich taith heb Docyn dilys;

6.1.3 Roedd person awdurdodedig wedi rhoi caniatâd i chi deithio heb Docyn dilys. Mae hyn yn cynnwys: pan fydd staff yn yr orsaf, ac mae aelod awdurdodedig o staff wedi rhoi caniatâd penodol i fynd ar wasanaeth trên, neu rydych wedi cael hysbysiad ysgrifenedig neu wedi clywed cyhoeddiad clir i'r perwyl hwn;

6.1.4 Mae gennych anabledd ac nid oedd y trefniadau prynu Tocynnau yn yr orsaf roeddech chi'n gadael ohoni yn hygyrch i chi.

Yn yr achosion hyn, rhaid i chi brynu Tocyn priodol i gwblhau eich taith cyn gynted ag y gallwch yn rhesymol. Dylai hyn naill ai fod ar y trên gan aelod o staff y trên – neu fel arall cyn gynted ag y byddwch yn gadael y trên a chyn i chi adael yr orsaf yn eich cyrchfan.

Os byddwch yn gwneud hynny, bydd pris y Tocyn y byddwch chi'n ei brynu'r un fath â phe baech chi wedi prynu Tocyn yn yr orsaf y gadawoch chi yn y lle cyntaf, gan gynnwys unrhyw ostyngiad Cerdyn Rheilffordd y mae gennych hawl iddo. Os na fyddwch yn gwneud hynny, mae gan y Cwmni Trenau hawl i ystyried eich bod wedi mynd ar y trên heb Docyn dilys a chymryd camau yn unol ag Amod 9.

**GWYBODAETH:** Mae hyn yn golygu y dylech brynu Tocyn gan y goruchwyliwr ar y trên os oes un ar gael; mewn gorsaf gyfnewid cyn belled fod digon o amser cyn eich gwasanaeth cysylltu; neu, os nad yw'r naill na'r llall o'r rhain yn bosib, ar ben eich taith.

- 6.2 Mewn unrhyw amgylchiadau ar wahân i'r rhai a nodir yn 6.1 uchod, os byddwch chi'n prynu Tocyn ar ôl i chi fynd ar drên (naill ai ar y trên gan ddefnyddio gwasanaeth rhyngwyd neu wrth gyrraedd yr orsaf lle'r oeddech chi'n bwriadu gorffen eich taith) mae gan y Cwmni Trenau hawl i drin unrhyw Docyn o'r fath fel Tocyn annilys a chymryd camau yn unol ag Amod 9 yn unol â hynny.
- 6.3 Gellir dal Tocyn dilys (a/neu, lle bo'n berthnasol, Cerdyn Rheilffordd) ar ddyfais electronig lle mae swyddogaeth briodol i ganiatáu archwilio'r Tocyn hwnnw'n rhwydd (a/neu'r holl ddogfennau cysylltiedig). Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod modd cael gafael ar y ddyfais electronig pan fo angen a bod y Tocyn a/neu'r Cerdyn Rheilffordd perthnasol yn cael eu dangos. Os na allwch wneud hynny pan ofynnir i chi, mae gan y Cwmni Trenau hawl i gymryd camau yn unol ag Amod 9.
- 6.4 Gall plant dan bump oed deithio am ddim heb Docyn ar yr amod eu bod yn teithio gyda theithiwr sydd â Thocyn dilys neu wedi cael awdurdod arall i deithio.
- 6.5 Oni bai fod Amod 6.4 yn berthnasol, rhaid i blant rhwng 5 a 15 oed gael Tocyn dilys ar gyfer teithio ond mae hawl ganddynt i gael gostyngiad "plenty" ar y rhan fwyaf o Docynnau. Os nad oes disgownt ar gael, byddwch yn cael eglurhad o hynny pan fyddwch chi'n prynu eich Tocyn.
- 6.6 Mae trefniadau arbennig yn eu lle ar gyfer plant o dan 11 oed sy'n teithio gydag oedolyn yn ardal tocynnau parthau talu wrth fynd Llundain. I gael manylion, ewch i: <https://tfl.gov.uk/fares-and-payments/travel-for-under-18s/travelling-with-children>

## 7. Dull Adnabod Personol

Dim ond gyda math penodol o ID personol y mae rhai mathau o Docynnau yn ddilys. Pan fydd hyn yn berthnasol, nodir hynny'n glir i chi wrth brynu eich Tocyn, ac yn yr achosion hyn, rhaid i chi sicrhau bod eich cerdyn adnabod gyda chi pan fyddwch chi'n teithio.

**GWYBODAETH:** Mae hyn yn berthnasol, er enghraifft, ar gyfer rhai mathau o Docynnau hunan-argraffu sydd ond yn ddilys pan fyddant yn cael eu cario gyda'r ID priodol a nodwyd wrth eu harchebu.

## 8. Cardiau Rheilffordd

- 8.1 Os ydych chi'n defnyddio Cerdyn Rheilffordd i brynu Tocyn am bris gostyngol, rhaid i chi gario'r Cerdyn Rheilffordd (a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio) pan fyddwch chi'n teithio. Rhaid i'r Cerdyn Rheilffordd fod o fewn y cyfnod y mae'n ddilys pan fyddwch chi'n teithio (mewn geiriau eraill ni ddylai fod wedi dod i ben).
- 8.2 Efallai y bydd cyfyngiadau ychwanegol ar y Cerdyn Rheilffordd a fydd yn berthnasol i unrhyw Docynnau y byddwch chi'n eu prynu wrth ei ddefnyddio. Pan fyddwch chi'n prynu Cerdyn Rheilffordd, bydd y telerau a'r amodau llawn yn cael eu darparu i chi. Mae'r rhain hefyd ar gael naill ai o'r wefan berthnasol y prynwyd y Cerdyn Rheilffordd arni neu o swyddfeydd Tocynnau â staff o fewn dilysrwydd y Cerdyn Rheilffordd.
- 8.3 Os oes gennych chi Cerdyn Rheilffordd, rhaid i chi sicrhau bod staff y rheilffyrdd yn gallu darllen y wybodaeth arno. Ar adegau, gallai'r wybodaeth hon sydd wedi'i hargraffu bylu dros amser. Os bydd eich Cerdyn Rheilffordd yn dechrau mynd yn annarllenadwy am y rheswm hwn, byddwn yn ei gyfnewid am ddim. Gellir gwneud hyn mewn unrhyw orsaf sydd â Swyddfa Docynnau neu drwy'r Manwerthwr Trwyddedig y prynwyd y tocyn ganddynt.
- 8.4 Os ydych chi'n teithio gyda Thocyn gyda gostyngiad y Cerdyn Rheilffordd ac na allwch chi gyflwyno'r Cerdyn Rheilffordd pan fydd staff neu asiantau awdurdodedig Cwmni Trenau'n gofyn amdano, byddwch chi'n cael eich trin fel petaech chi wedi mynd ar drên heb Docyn dilys, a bydd

Amodau 9.1 – 9.5 yn berthnasol.

- 8.5 Fodd bynnag, os nad oeddech chi'n gallu cyflwyno'r Cerdyn Rheilffordd oherwydd eich bod wedi anghofio ei gario ar y daith benodol honno neu'n methu ei ddangos ar ddyfais electronig, bydd y Cwmni Trenau dan sylw'n ad-dalu pris unrhyw docyn neu Docyn Cosb a dalwyd amdanynt yn unol ag Amod 10.
- 8.6 Er mwyn hawlio ad-daliad o'r fath, bydd angen i chi gysylltu ag adran gwasanaeth i gwsmeriaid y Cwmni Trenau a gododd y ffi ychwanegol arnoch chi neu roi Tocyn Cosb i chi, gan roi manylion llawn eich Cerdyn Rheilffordd, ynghyd â'r Tocynnau ychwanegol a brynwyd neu unrhyw hysbysiadau Tocynnau Cosb. Ni chaiff mwy nag un hawliad o'r fath ei ystyried mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

## 9. Teithio heb Docyn Dilys

- 9.1 Mae teithio heb Docyn dilys ar gyfer eich taith gyfan yn fater difrifol. Mae hyn yn cynnwys, lle bo'n berthnasol: methu cyflwyno naill ai'r Tocyn neu unrhyw ddogfennau ategol fel Cerdyn Rheilffordd; defnyddio Tocyn nad yw wedi cael ei ddilysu lle mae hyn yn ofynnol yn ôl ei delerau ac amodau; neu fynd i ran o orsaf neu unrhyw ardal y nodir ei bod ar gyfer deiliaid Tocyn yn unig. Mae Amod 6 yn nodi'r unig amgylchiadau lle gallwch chi fynd ar drên heb Docyn dilys.

Os ydych chi'n credu bod un o'r amgylchiadau hyn yn berthnasol i chi, neu fod rheswm arall pam y teithioch heb Docyn dilys neu fethu cyflwyno un, yna dylech egluro hyn i'r aelod o staff y Cwmni Trenau sydd wedi gofyn am gael archwilio eich Tocyn.

- 9.2 Os nad ydych chi'n gallu cyflwyno Tocyn dilys (gan gynnwys dogfennau ategol fel yr amlinellir yn Amod 9.1) pan ofynnir i chi wneud hynny ac nad yw'r amodau a nodir yn Amod 6 yn berthnasol, caniateir i'r Cwmnïau Trenau, o dan yr Amodau hyn ac yn unol â'r gyfraith, gymryd un neu fwy o'r mesurau canlynol:

- 9.2.1 Codi tâl am y tocyn unffordd llawn heb ostyngiad i orsaf sy'n cael ei gwasanaethu'n uniongyrchol gan y trên rydych chi arno. Ni fydd gennych hawl i unrhyw ostyngiadau na thelerau arbennig, nac i brynu Tocyn i orsaf ar wahân i un sy'n cael ei gwasanaethu gan y trên rydych chi arno.

**GWYBODAETH:** Fel arfer pris tocyn unffordd llawn heb ostyngiad fydd y tocyn Unrhyw Bryd ar gyfer y daith dan sylw.

- 9.2.2 Rhoi Tocyn Cosb i chi pan nodir hynny mewn hysbysiadau mewn gorsafoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan drenau sydd â chynllun Tocynnau Cosb ar waith (gweler Amod 10 isod);
- 9.2.3 Eich riportio i gael eich erlyn am drosedd o dan Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd neu ddeddfwriaeth berthnasol arall. Gellir dwyn erlyniad yn ychwanegol at gamau gorfodi sifil neu adfer dyledion, neu ochr yn ochr â hynny, neu gall ddilyn camau cychwynnol ar gyfer gorfodi sifil neu adfer dyledion.

Os nad ydych chi'n gallu cyflwyno Tocyn dilys neu dalu am docyn pan ofynnir i chi wneud hynny, efallai y bydd y Cwmni Trenau'n gofyn i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad er mwyn gallu mynd ar drywydd y mater. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon o dan Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd a deddfwriaeth berthnasol arall, a gall fod yn drosedd peidio â gwneud hynny neu roi enw neu gyfeiriad anghywir.

- 9.3 Os nad ydych chi'n gallu cyflwyno Tocyn dilys pan ofynnir i chi neu os nad ydych chi'n talu'r swm cyfan y gofynnir amdano gan y Cwmni Trenau pan gewch eich herio, gall y Cwmni Trenau gysylltu â chi (yn ysgrifenedig neu fel arall) i ofyn am daliad neu i adfer symiau heb eu talu, a gall ddwyn achos sifil a/neu mewn rhai achosion, erlyniad troseddol. Bydd gan y Cwmni Trenau hawl i adfer ei gostau ar gyfer y camau dilynol hyn (gan gynnwys costau erlyn neu hawlio) gennych pryd bynnag y bydd costau o'r fath yn codi. Ni fydd y swm sy'n cael ei hawlio yn fwy na chostau gwirioneddol camau dilynol o'r fath a gymerir.
- 9.4 Os ydych chi'n defnyddio Tocyn sy'n ddilys ar wasanaeth(au) trên penodol ac nad ydych chi'n gallu cyrraedd y gwasanaeth sydd wedi cael ei archebu oherwydd bod gwasanaeth trên cysylltiol blaenorol wedi cael ei ohirio neu ei ganslo, byddwch yn gallu teithio ar y gwasanaeth trên nesaf sy'n cael ei ddarparu gan y Cwmni/Cwmnïau Trenau yr oedd eich tocyn yn ddilys gyda nhw heb gosb.
- 9.5 Os ydych chi:
- 9.5.1 yn defnyddio Tocyn sydd wedi'i ddyddio'n gywir ond sydd wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio ar amrywiaeth o adegau ar wahân i'r gwasanaeth rydych chi'n teithio arno (nid yw hyn yn cynnwys Tocynnau sydd dim ond yn ddilys ar wasanaeth(au) trên ag amser penodol);

**GWYBODAETH:** Mae Cymal 9.5.1 yn cynnwys Tocynnau fel Tocynnau Cyfnodau Tawelach a Chyfnodau Tawelach Fyth, ond nid yw'n cynnwys Tocynnau Advance. Os ydych chi'n teithio ar wasanaeth(au) trên y tu allan i'r cynllun taith y cyhoeddwyd eich Tocyn ar ei chyfer, byddwch yn cael eich trin fel pe na bai gennych Docyn oni bai fod amgylchiadau cymal 9.4 yn berthnasol.

9.5.2 yn cael toriad yn eich taith pan nad oes hawl gennych chi i wneud hynny;

bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth rhwng y pris rydych chi wedi'i dalu a'r Tocyn rhataf sy'n ddilys ar gyfer y trên rydych chi'n ei ddefnyddio.

**Nid yw amod 9.5 yn berthnasol mewn unrhyw amgylchiadau eraill.** Mewn achosion o'r fath, os nad yw eich Tocyn yn ddilys ar gyfer y daith rydych chi'n bwriadu ei gwneud, rhaid i chi, cyn i chi ddechrau eich taith, naill ai brynu Tocyn newydd neu, (lle mae telerau ac amodau'r Tocyn sydd gennych chi'n caniatáu hynny), ei gyfnewid neu dalu mwy am docyn sy'n ddilys ar gyfer y gwasanaeth rydych chi'n dymuno ei ddefnyddio.

## 10. Tocynnau Cosb

**GWYBODAETH:** Mae rhai Cwmnïau Trenau'n rhoi Tocynnau Cosb. Mae rhagor o wybodaeth am Docynnau Cosb a rhestr o'r Cwmnïau Trenau sy'n gweithredu cynlluniau o'r fath ar gael yn [www.nationalrail.co.uk/penaltyfare](http://www.nationalrail.co.uk/penaltyfare).

- 10.1 Mae'n rhaid i Gwmnïau Trenau sicrhau bod hysbysiadau rhybuddio'n cael eu harddangos yn glir mewn gorsafoddd lle mae Tocynnau Cosb yn berthnasol. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu am Docyn Cosb os:
- 10.1.1 Rydych chi'n teithio ar wasanaeth trên heb Docyn dilys;
- 10.1.2 Rydych chi'n teithio mewn cerbyd dosbarth cyntaf gyda Thocyn safonol;
- 10.1.3 Rydych chi'n teithio ar wasanaeth trên ar adeg pan nad yw eich Tocyn ar gyfer gwasanaeth penodol yn ddilys (oni bai bod Amod 9.4 yn berthnasol);

**GWYBODAETH:** Tocynnau penodol i wasanaeth yw'r rhai sy'n mynnu eich bod yn defnyddio gwasanaeth(au) trên penodol ar gyfer eich taith gyfan neu ran o'ch taith, fel Tocynnau Advance.

- 10.1.4 Rydych chi'n defnyddio llwybr nad yw eich Tocyn yn ddilys ar ei gyfer;
- 10.1.5 Nid oes gennych y ddogfen/dogfennau ategol angenrheidiol, lle bo angen (er enghraifft, Cerdyn Rheilffordd neu gerdyn llun dilys).

10.2 Pan fydd hysbysiadau'n dangos bod Tocynnau Cosb yn berthnasol o'r orsaf honno ac nad oes gennych Docyn dilys, rhaid i chi, lle nodir hynny, gael "addewid i dalu" o beiriant tocynnau hunan-wasanaeth.

## Rhan D: Defnyddio eich Tocyn

Mae'r Amodau canlynol o 11 i 16 yn nodi'r amodau neu'r cyfyngiadau cyffredinol a allai fod yn berthnasol yn dibynnu ar y math o Docyn rydych chi wedi'i brynu. Bydd amodau penodol unrhyw Docyn sy'n cael ei brynu, yn ogystal ag unrhyw amodau ychwanegol ar gyfer Cardiau Rheilffordd neu gynlluniau gostyngiad, hefyd yn berthnasol.

### 11. Dyddiadau y mae eich tocyn yn ddilys arnynt

- 11.1 Rhaid i chi ddefnyddio eich Tocyn ar neu o fewn y dyddiad(au) y mae'n ddilys. Bydd y dyddiad(au) dilys yn cael eu nodi'n glir pan fyddwch chi'n prynu eich Tocyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Amod 16 hefyd.
- 11.2 Os daw eich Tocyn i ben yn ystod eich taith o ganlyniad i oedi i'ch trê'n, byddwch yn dal yn cael cwblhau'r daith honno heb gosb.
- 11.3 Rhaid defnyddio Tocyn dwyffordd yn y drefn gywir (rhaid i chi ddefnyddio taith gyntaf eich Tocyn dwyffordd cyn defnyddio'r daith ddychwelyd). Nid yw rhan gyntaf Tocyn dwyffordd yn ddilys ar gyfer teithio ar ôl defnyddio'r rhan ddychwelyd.

### 12. Y Cwmni neu'r cwmnïau trenau y gallwch deithio â nhw

- 12.1 Mae rhai Tocynnau yn ei gwneud yn ofynnol i chi deithio ar wasanaeth neu wasanaethau trê'n penodol, neu wasanaethau Cwmni neu Gwmnïau Trenau penodol. Eglurir hyn i chi pan fyddwch chi'n prynu eich Tocyn.

**GWYBODAETH:** Efallai y bydd cyfyngiadau'n berthnasol i fynnu eich bod yn defnyddio gwasanaeth(au) ag amser penodol; yn defnyddio gwasanaethau un neu fwy o Gwmnïau Trenau penodol yn unig; neu i'ch cyfyngu i wasanaethau trê'n sy'n cael eu dangos gan enw brand neu hunaniaeth benodol.

- 12.2 Fel arall, mae hawl gennych i deithio ar wasanaethau unrhyw Gwmni Trenau sy'n darparu'r daith rydych chi'n ei gwneud ar y dyddiad(au), ar yr amser(oedd) ac ar y llwybr(au) y mae eich Tocyn yn ddilys arnynt.

### 13. Y llwybrau y cewch eu defnyddio

- 13.1 Efallai y bydd eich Tocyn yn dangos ei fod yn ddilys ar rai gwasanaethau trenau yn unig, fel rhai Cwmni Trenau penodol, neu ar drenau sy'n teithio ar lwybr neu lwybrau penodol. Os na ddangosir llwybr na Chwmni Trenau penodol, yna (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer y math o docyn rydych chi wedi'i brynu) bydd yn ddilys ar y canlynol:

13.1.1 unrhyw wasanaeth trê'n uniongyrchol rhwng y gorsafoedd a ddangosir ar eich Tocyn;

13.1.2 fel y dangosir ar gynllun taith a gyflwynir gan y cynllunydd teithiau ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk) neu gan Fanwerthwr Trwyddedig mewn cysylltiad â phrynu Tocyn a/neu gan gynnwys y cyfyngiadau perthnasol sy'n berthnasol i'r Tocyn hwnnw.

**GWYBODAETH:** Gallwch hefyd fynd ar-lein i wirio data'r Canllaw Llwybro Cenedlaethol sy'n cefnogi Cynllunwyr Teithiau yn [www.nationalrail.co.uk/travel-information/routeing-guide](http://www.nationalrail.co.uk/travel-information/routeing-guide).

**GWYBODAETH:** Mae Cynllunydd Teithiau National Rail yn gadael i chi ddewis unrhyw daith benodol ac yn eich galluogi i gynnwys lleoliadau penodol rydych chi'n dymuno teithio drwyddynt. Bydd yn dangos Tocynnau dilys ar gyfer y daith rydych chi wedi'i dewis ochr yn ochr ag amseroedd y trenau.

- 13.3 Os ydych chi'n defnyddio Tocyn Parth, sy'n caniatáu teithio mewn ardal ddaearyddol benodol, gallwch deithio ar drenau sy'n dilyn unrhyw lwybr yn y parth neu'r parthau a ddangosir ar y Tocyn.
- 13.4 Os byddwch chi'n teithio y tu hwnt i'r gyrchfan a ddangosir ar y Tocyn, byddwch chi'n cael eich trin fel petaech chi wedi mynd ar y trê'n heb Docyn dilys ar gyfer rhan ychwanegol eich taith. Mae Amod 9 yn nodi beth all ddigwydd os byddwch chi'n teithio heb Docyn dilys.

#### 14. Defnyddio cyfuniad o docynnau

- 14.1 Mae rhai Tocynnau yn eich atal yn benodol rhag eu defnyddio ar y cyd â Thocynnau eraill. Nodir hyn yn glir yn y telerau ac amodau wrth brynu Tocynnau o'r fath.
- 14.2 Oni bai fod Amod 14.1 yn berthnasol, gallwch ddefnyddio cyfuniad o ddau neu fwy o Docynnau i gwblhau eich taith ar yr amod bod y gwasanaethau trenau rydych chi'n eu defnyddio'n Galw yn yr orsaf neu'r gorsafodd lle rydych chi'n newid o un Tocyn i'r llall.
- 14.3 Oni bai fod Amod 14.1 yn berthnasol, os ydych chi'n defnyddio Tocyn Tymor, Tocyn Parth dyddiol, neu Docyn arall ar gyfer ardal benodol fel tocyn teithio rhatach, ranger, neu rover, ar y cyd â Thocyn arall a bod un Tocyn yn peidio â bod yn ddilys a'r ail Docyn yn dechrau bod yn ddilys yn yr un orsaf, **nid oes yn rhaid i'r trê'n Alw** yn yr orsaf honno er mwyn i'ch cyfuniad o docynnau fod yn ddilys.
- 14.4 Ym mhob achos, rhaid i chi gydymffurfio â thelerau ac amodau penodol pob Tocyn rydych chi'n eu defnyddio (er enghraifft, cadw at y llwybr(au) a'r gwasanaethau trenau dilys y mae pob Tocyn yn ddilys ar eu cyfer). **Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r Amodau a restrir uchod.**

**GWYBODAETH:** Er mwyn defnyddio tocynnau rhanedig ar gyfer taith, gyda dau neu fwy o Docynnau o dan Amod 14.2, rhaid i'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio fod wedi eu hamserlennu i stopio mewn gorsaf er mwyn caniatáu i deithwyr ddod oddi ar y gwasanaeth hwnnw a/neu fynd arno, fel y caniateir gan delerau ac amodau'r Tocyn sydd gennych chi. Does dim rhaid i chi ddod oddi ar y trê'n a mynd yn ôl ymlaen ar yr un gwasanaeth.

Os yw cyfuniad o Docynnau wedi'u 'rhannu' mewn gorsaf ond bod yr Alwad honno yn yr orsaf yn cael ei diffinio fel un ar gyfer "codi" yn unig" ar Amserlen National Rail ac mewn cynllunwyr teithiau, nid yw'r Tocyn sy'n cael ei ddal i'r orsaf honno yn ddilys; yn yr un modd, os yw'r Alwad honno yn yr orsaf yn cael ei diffinio fel un "gollwng yn unig" ar Amserlen National Rail ac mewn cynllunwyr teithiau, nid yw'r Tocyn sy'n cael

#### 15. Defnyddio Llety Dosbarth Cyntaf

- 15.1 Mae rhai gwasanaethau trenau'n cynnwys llety dosbarth cyntaf. Pan fydd llety dosbarth cyntaf ar gael, bydd seddi ac ardal(oedd) perthnasol ar y trê'n wedi'u dynodi'n glir. Oni bai fod staff y Cwmni Trenau, neu hysbysiaid ar y trê'n, yn rhoi caniatâd penodol i chi, ni allwch deithio mewn llety dosbarth cyntaf (gan gynnwys sefyll mewn coridorau neu fannau agored) gyda thocyn dosbarth safonol. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad oes seddi gwag yn y dosbarth safonol.
- 15.2 Gellir uwchraddio Tocyn dosbarth safonol i fod yn docyn dosbarth cyntaf yn y rhan fwyaf o achosion. Os felly, dylech dalu'r gost ychwanegol sy'n ddyledus cyn mynd ar y trê'n. Y swm y byddwch chi'n ei dalu fydd y gwahaniaeth rhwng y pris rydych chi eisoes wedi'i dalu a phris tocyn dosbarth cyntaf priodol ar gyfer y daith rydych chi'n dymuno ei gwneud.
- 15.3 Mae rhai Cwmnïau Trenau'n caniatáu i chi uwchraddio eich tocyn ar y trê'n drwy dalu am atodiad. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd cyhoeddiadau neu hysbysiaid yn nodi hynny'n glir.

- 15.4 Os byddwch chi'n teithio mewn llety dosbarth cyntaf heb Docyn dosbarth cyntaf dilys neu ganiatâd gan staff i deithio yn y llety hwnnw, bydd Amod 9 yn berthnasol.
- 15.5 Os ydych chi'n cael caniatâd i eistedd mewn sedd dosbarth cyntaf pan fydd gennych chi Docyn dosbarth safonol, ar y sail hon efallai y bydd yn rhaid i chi ildio eich sedd yn ddiweddarach i deithiwr sydd â Thocyn dosbarth cyntaf dilys.
- 15.6 Os oes gennych chi Docyn dosbarth cyntaf a bod y llety dosbarth cyntaf ar eich gwasanaeth trên wedi cael ei ddad-ddosbarthu neu os nad oes modd i chi allu eistedd yno am eich taith gyfan neu ran ohoni oherwydd ei fod yn llawn, bydd gennych hawl i gael ad-daliad fel y nodir yn Amod 31.

## 16. Torri taith

**GWYBODAETH:** Mae'r rhan fwyaf o Docynnau'n caniatáu i chi gael toriad yn eich taith. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi gwblhau'r daith gyfan ar yr un pryd nac, os caniateir hynny, ar yr un diwrnod.

Sylwch nad yw Tocynnau Advance yn caniatáu toriad yn y daith. Mae'r amodau arbennig ar gyfer Tocynnau Advance ar gael yn [www.nationalrail.co.uk/advancetickets](http://www.nationalrail.co.uk/advancetickets).

Mae mathau eraill o Docynnau cenedlaethol fel arfer yn caniatáu toriad yn y daith ac eithrio rhan gyntaf rhai teithiau dwyffordd Cyfnodau Tawelach dros bellter hirach. Os felly, nodir hynny'n glir yn y cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Tocynnau hynny.

- 16.1 Pan ganiateir toriad yn y daith, does dim terfyn ar nifer y troeon y gallwch wneud hynny o fewn y cyfnod y mae'r Tocyn yn ddilys, nes bydd y daith wedi'i chwblhau.
- 16.2 Oni bai fod eithriad fel rhan o delerau ac amodau penodol Tocyn, gallwch gychwyn, neu gael toriad ac ailafael yn eich taith (yn y naill gyfeiriad neu'r llall gyda Thocyn dwyffordd) mewn unrhyw orsaf ar hyd y daith, ac eithrio fel y dangosir yn Amod 16.3 isod, cyn belled â bod y Tocyn sydd gennych chi'n ddilys ar gyfer y trenau rydych chi am eu defnyddio. Gallwch hefyd derfynu eich taith (i'r naill gyfeiriad neu'r llall gyda Thocyn dwyffordd) cyn cyrraedd y gyrchfan a ddangosir ar y Tocyn.
- 16.3 Pan fydd gwasanaeth trên yn gwneud taith gylchol a bod modd ei ddefnyddio yn y naill gyfeiriad neu'r llall i gyrraedd pen y daith ar eich Tocyn, gallwch deithio'r naill ffordd neu'r llall beth bynnag fo hyd y daith – does dim angen i chi ddilyn y llwybr byrraf. Fodd bynnag, os byddwch yn dilyn y llwybr hirach, ni chewch adael y gwasanaeth hwnnw mewn gorsaf ar hyd y daith lle byddai'r gost wedi bod yn uwch. Os byddwch yn gwneud hynny, bydd cymal 16.4 yn berthnasol.
- 16.4 Os byddwch chi'n cychwyn, yn cael toriad neu'n ailafael yn eich taith mewn gorsaf ar hyd y daith lle nad oes gennych chi hawl i wneud hynny, bydd rhaid i chi dalu'r gost ychwanegol. Y gost am hyn fydd y gwahaniaeth rhwng y swm a dalwyd am y Tocyn sydd gennych chi a'r Tocyn rhataf sydd ar gael ar gyfer teithio ar unwaith a fyddai wedi rhoi'r hawl i chi gychwyn, cael toriad neu ailafael yn eich taith yn yr orsaf dan sylw.
- 16.5 Nid yw tocynnau sy'n ddilys ar gyfer teithio ar draws Llundain gan ddefnyddio gwasanaethau Transport for London yn rhoi hawl i chi dorri eich taith ar y London Underground, ar y llinell Elizabeth rhwng Llundain Paddington a Stratford, a rhwng Llundain Paddington ac Abbey Wood a/neu Reilffordd Ysgafn Docklands, oni bai fod eich Tocyn yn Docyn Tymor neu'n gerdyn teithio ar gyfer y Parthau rydych chi'n teithio ynddynt.

## Rhan E: Eich Taith ar y Trên

### 17. Cyflwyniad

Mae'r Rhan E hon yn nodi'r Amodau penodol sy'n berthnasol wrth deithio.

### 18. Archwilio Tocynnau

**GWYBODAETH:** Gall methu cyflwyno Tocyn dilys ar gyfer eich taith gyfan pan ofynnir i chi wneud arwain at erlyniad.

18.1 Os bydd staff y Cwmni Trenau'n gofyn i chi wneud hynny, rhaid i chi ddangos eich Tocyn ac unrhyw Gerdyn Rheilffordd, cerdyn-llun neu fath arall o ddogfen adnabod bersonol sy'n ofynnol gyda'ch Tocyn, a'u trosglwyddo i'w harchwilio.

18.2 Os nad yw eich Tocyn yn ddilys am unrhyw reswm, gall staff y Cwmni Trenau ei dynnu'n ôl oni bai ei fod yn cael ei ddal ar ddyfais electronig neu gerdyn talu. Pan fydd eich Tocyn yn cael ei dynnu'n ôl, byddwch yn cael derbynneb.

### 19. Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd

19.1 Os ydych chi'n bresennol ar y rheilffordd, rhaid i chi gydymffurfio ag Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd.

**GWYBODAETH:** Mae Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd yn berthnasol i unrhyw un ar eiddo'r rheilffordd, ni waeth a oes ganddynt Docyn ai peidio. Mae copi o Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd ar gael yn [www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws](http://www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws) neu gallwch ofyn am fanylion mewn Swyddfa Docynnau mewn gorsaf. Mae torri Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd yn arwain at drosedd Atebolrwydd Caeth. Mae hyn yn golygu y gellir eich erlyn heb yr angen i brofi bwriad i'w torri.

### 20. Newid Trenau

Os oes angen newid trenau ar eich taith, rhaid i chi ganiatáu digon o amser i gyrraedd eich trê'n cyswllt mewn pryd wrth ddewis y trenau rydych chi'n dymuno teithio arnynt. Bydd amseroedd y trenau a ddangosir ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk) neu ar unrhyw gynllun teithio a ddarperir gan Gwmni Trenau neu Fanwerthwr Trwyddedig yn caniatáu digon o amser i chi fynd o un trê'n i'r llall. Gallwch hefyd ofyn am gyngor ar hyn wrth brynu eich Tocyn mewn gorsaf.

### 21. Teithwyr Anabl

**GWYBODAETH:** Ein nod yw ei gwneud mor hygyrch â phosib i deithwyr anabl ddefnyddio Rhwydwaith National Rail a darparu amrywiaeth o wasanaethau i helpu i sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau eu taith.

21.1 Byddwn yn darparu cymorth penodol i deithwyr anabl (a theithwyr eraill a allai fod angen cymorth ychwanegol fel pobl hŷn) ar gais, heb gost ychwanegol. Yn ôl y gofyn, bydd hyn yn cynnwys trefnu bod staff ar gael i ddefnyddio rampiau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn fynd ar drenau; neu drefnu tacsï hygyrch i gludo teithwyr ag anabledau i'r orsaf hygyrch fwyaf cyfleus sy'n briodol i'w taith.

- 21.2 Rydyn ni'n argymhell bod teithwyr sydd angen cymorth yn cysylltu â'r Cwmni Trenau perthnasol gydag o leiaf 2 awr o rybudd cyn teithio. Fodd bynnag, bydd staff yn rhoi cymorth pan na fydd cymorth wedi'i drefnu ymlaen llaw, yn unol â 'Pholisi Teithio Hygyrch' y Cwmni Trenau.

**GWYBODAETH:** Gallwch drefnu cymorth mewn unrhyw orsaf ar gyfer unrhyw daith drên ar unrhyw adeg. Bydd staff bob amser yn ceisio helpu, hyd yn oed os nad oes cymorth wedi'i drefnu. Os na fydd staff yn gallu eich helpu ar unwaith, byddant yn egluro'n glir pam. Efallai y bydd rhai cwmnïau'n gofyn i chi wneud cais am gymorth hyd at 2 awr ymlaen llaw i'w galluogi i sicrhau y bydd aelod o staff ar gael i'ch helpu.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae trefnu cymorth ar gael ar wefan pob Cwmni Trenau ac ar wefan National Rail Enquiries yn [www.nationalrail.co.uk/on-the-train/accessible-train-travel-and-facilities](http://www.nationalrail.co.uk/on-the-train/accessible-train-travel-and-facilities) sy'n rhoi rhagor o arweiniad ar y cyfleusterau sydd ar gael ym mhob gorsaf (er enghraifft, lle mae grisiau a dim lifftiau).

- 21.3 Mae pob Cwmni Trenau'n cyhoeddi 'Polisi Teithio Hygyrch', sy'n nodi sut y bydd yn helpu teithwyr anabl i ddefnyddio eu gwasanaethau.

**GWYBODAETH:** Cyhoeddir pob Polisi Teithio Hygyrch ar wefan y Cwmni Trenau.

## 22. Mynd â'ch beic ar y trê'n

- 22.1 Caniateir beiciau nad ydynt yn plygu ar y rhan fwyaf o wasanaethau trê'n, ond gall cyfyngiadau fod yn berthnasol ar adegau penodol o'r dydd a/neu ar ddyddiau'r wythnos. Mewn rhai achosion, efallai y codir tâl, ac efallai y bydd angen cadw lle.

**GWYBODAETH:** Mae Cwmnïau Trenau'n cyhoeddi manylion eu polisïau beiciau ar-lein. Mae manylion ar gael hefyd mewn swyddfeydd Tocynnau sydd â staff, a gallwn roi gwybod i chi am y cyfyngiadau hyn ac unrhyw ffioedd os byddwch chi'n gofyn am hynny wrth brynu eich Tocyn.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn [www.nationalrail.co.uk/cyclists](http://www.nationalrail.co.uk/cyclists).

- 22.2 Os na fydd lle i feic ar ôl cadw lle ar ei gyfer, bydd y Cwmni Trenau sy'n gyfrifol yn ad-dalu unrhyw ffi a dalwyd am gadw lle. Os nad yw'r Cwmni Trenau'n gallu darparu lle cyfatebol arall ar gyfer eich beic ac felly eich bod yn penderfynu peidio â theithio, bydd gennych hawl i hawlio ad-daliad am eich taith dan Amod 29, heb unrhyw dâl gweinyddol.

Rhaid i chi wneud eich hawliad o fewn 28 diwrnod i'r daith a gynlluniwyd, gan gynnwys y tocyn a'r lle a gadwyd ar gyfer beic ar y daith dan sylw.

- 22.3 Oni bai fod polisi beicio Cwmni Trenau unigol yn gwahardd hynny, gellir cario beiciau pedalau trydan ac e-sgwteri ar drenau ar yr amod eu bod yn debyg o ran maint i feic neu sgwter traddodiadol. Ni ellir cario beiciau pŵer heb bedalau beic traddodiadol, neu sy'n rhy fawr.

- 22.4 Gellir trin beiciau sy'n plygu'n llawn fel bagiau fel y dangosir yn Amod 23 isod.

## 23. Mynd â bagiau ac eitemau eraill gyda chi ar eich taith

23.1 Gallwch fynd â hyd at dri bag i mewn i fan cyfleusterau teithwyr ar y trê'n, oni bai:

23.1.1 y gallai eich bagiau achosi anaf, anhwylostod neu niwsans neu y gallent achosi difrod i eiddo;

23.1.2 nad oes digon o le ar ei gyfer;

23.1.3 byddai eich bagiau yn rhwystro drysau, eiliau neu goridorau;

23.1.4 gallai eu llwytho neu eu dadlwytho achosi oedi i drenau;

23.1.5 nad yw eich bagiau'n cael eu cario na'u pecynnu mewn ffordd addas;

23.1.6 bod eich bagiau yn un o'r eitemau gwaharddedig a ddangosir yn y rhestr a ddangosir yn 23.4 isod;

23.1.7 os yw Cwmni Trenau wedi nodi unrhyw amodau arbennig sy'n ymwneud â chludo bagiau ar ei wasanaethau trenau ei hun. Mewn achosion o'r fath, bydd yr amodau hyn ar gael wrth brynu eich Tocyn ymlaen llaw a byddant i'w gweld ar wefan y Cwmni Trenau.

23.2 Fel arfer, bydd angen i chi allu rheoli eich bagiau heb gymorth ychwanegol; fodd bynnag, os oes gennych anabledd a bod angen cymorth arnoch, gallwch drefnu hyn cyn eich taith. Gweler Amod 21 i gael rhagor o wybodaeth.

23.3 Gellir cludo eitemau mewn man cadw bagiau ar wahân, os yw hynny ar gael, ar y gwasanaeth trê'n. Am resymau diogelwch, rhaid i eitemau sy'n cael eu cludo mewn man cadw o'r fath, gael eu labelu'n glir gyda'ch enw, eich cyfeiriad a'r orsaf lle'r ydych yn bwriadu gorffen eich taith. Ni chaiff staff y cwmni trenau ryddhau eitemau sydd wedi'u cadw mewn man storio bagiau ar wahân nes eich bod wedi profi mai chi sy'n berchen arnynt.

23.4 Amodau sy'n ymwneud â chludo eitemau penodol:

EITEM		AMODAU
Pramiau/Caticot.		Rhaid gallu ei blygu
Cadeiriau olwyn	a chadeiriau olwyn modur	Rhaid plygu cadeiriau olwyn oni bai eu bod yn cael eu defnyddio a'u lleoli mewn adran a ddynodwyd ar gyfer cadeiriau olwyn lle bo rhai'n cael eu darparu.  Maen nhw'n cael eu cludo ar yr amod nad yw eu lled yn fwy na 70cm ac nad yw eu hyd yn fwy na 120cm

23.5 Eitemau sydd ond yn cael eu caniatáu yn ôl disgrisiwn cwmnïau trenau unigol:

EITEM
Sgwteri symudedd
e-Sgwteri
Canŵod; byrddau syrffio; byrddau hwyllo
Sgiau a byrddau sgïo; offer golff; offer chwaraeon eraill ac eithrio'r rhai a nodir isod nad ydynt yn cael eu caniatáu
Offerynnau Cerdd sy'n fwy na'r dimensiynau hyn, 30 x 70 x 90 cm
Arfau tanio heb eu llwytho, wedi'u trwyddedu'n briodol, gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y Cwmni Trenau ac yn cael eu cario yn unol â'r gyfraith ac unrhyw gyfarwyddiadau penodol eraill

23.6 Eitemau nad oes hawl gan deithwyr eu cario ar drenau:

EITEM
Beiciau modur; mopedau; sgwteri modur
Dodrefn sy'n fwy na'r dimensiynau hyn, 30 x 70 x 90 cm
Arfau Tanio (ac eithrio'r hyn a ddangosir uchod)
Nwyddau peryglus; hylifau fflamadwy; ffrwydrion

## 24. Mynd ag anifail gyda chi ar eich taith

24.1 Gallwch fynd â hyd at ddau gi neu anifeiliaid domestig bach eraill yn rhad ac am ddim gyda chi oni bai fod Cwmni Trenau wedi nodi unrhyw amodau arbennig sy'n ymwneud â'u gwasanaethau trenau eu hunain. Mewn achosion o'r fath, bydd yr amodau hyn ar gael wrth brynu eich Tocyn ymlaen llaw a byddant i'w gweld ar wefan y Cwmni Trenau.

24.2 Ni cheir mynd ag anifeiliaid, ac eithrio cŵn cymorth, i mewn i gerbydau bwffe na cherbydau bwyty (gan gynnwys llety dosbarth cyntaf gyda gwasanaeth prydau bwyd yn eich sedd) oni bai y caniateir hynny'n benodol gan y Cwmni Trenau rydych chi'n ei ddefnyddio. Ni chaniateir anifeiliaid ar seddi dan unrhyw amgylchiadau.

24.3 Rhaid cludo anifeiliaid ar wahân i gŵn mewn basgedi neu gludwyr anifeiliaid sydd wedi'u hamgáu'n llawn ac wedi'u dylunio at y diben hwn, gyda dimensiynau heb fod yn fwy na 85 x 60 x 60 cm. Rhaid i'r basgedi a'r cludwyr anifeiliaid anwes fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r anifail sefyll a gorwedd i lawr yn gyfforddus. Ni ellir cludo anifeiliaid sy'n rhy fawr ar gyfer basged neu gludydd anifeiliaid anwes gyda dimensiynau 85 x 60cm ar drên.

24.4 Rhaid cadw cŵn ar dennyn drwy gydol eich taith, gan gynnwys unrhyw ran o eiddo'r orsaf; ni chewch chi dynnu anifeiliaid eraill o'u basgedi na'u cludwyr anifeiliaid anwes. Os bydd eich ci neu anifail arall yn achosi niwsans neu anghyfleustra i deithwyr eraill, efallai y bydd staff yn gofyn i chi ei symud oddi ar drên neu safle rheilffordd.

24.5 Mae amodau arbennig yn berthnasol o ran cludo anifeiliaid mewn cabanau cysgu. Os ydych chi'n ystyried mynd ag anifail ar wasanaeth gyda chaban cysgu, bydd angen i chi gysylltu â'r Cwmni Trenau i gael manylion am y rhain cyn i chi archebu.

24.6 Ni ellir cludo da byw nac anifeiliaid annomestig o dan unrhyw amgylchiadau.

## 25. Eich cyfrifoldebau mewn perthynas â bagiau, eitemau eraill rydych chi'n dod gyda chi ac anifeiliaid

Dylech chi ofalu am unrhyw fagiau neu eitemau, anifeiliaid neu feiciau rydych chi'n mynd â nhw ar drên. Gallech fod yn atebol am unrhyw anaf, difrod neu golled os na fyddwch chi'n cymryd gofal rhesymol. Oni bai fod Cwmni Trenau wedi cytuno i ddarparu cymorth, ni fydd yn gyfrifol am unrhyw golled nac oedi i'ch taith sy'n deillio o unrhyw fethiant yn hyn o beth.

**26. Eich cyfrifoldebau mewn perthynas â bagiau, eitemau eraill rydych chi'n dod gyda chi ac anifeiliaid**

Bydd Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd ond yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod i fagiau, eitemau, anifeiliaid neu feiciau yn ei drenau neu ar un o'i safleoedd os achoswyd y golled neu'r difrod gan wall gan staff y Cwmni Trenau neu'r Darparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd.

Pan fydd atebolwydd yn cael ei sefydlu, ni fydd atebolwydd y Cwmni Trenau neu'r Darparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd yn fwy na £1,500 fesul teithiwr (ac eithrio atebolwydd am golli neu ddifrodi offer symudedd, neu gyfarpar penodol arall a ddefnyddir gan deithwyr anabl neu deithwyr â symudedd cyfyngedig, sy'n ddiderfyn).

**27. Amserlenni diwygiedig a gwasanaethau yn lle trenau**

**GWYBODAETH:** O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen cael bws neu fws moethus yn lle gwasanaeth trên. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff hyn ei gynllunio ymlaen llaw (er enghraifft, oherwydd gwaith peirianyddol i gynnal neu wella'r rhwydwaith rheilffyrdd), ond efallai y bydd weithiau angen gwneud newidiadau o'r fath ar fyr rybudd. Fel arfer, bydd gwasanaethau bws a bws moethus yn cymryd mwy o amser na'r amser a drefnwyd ar gyfer y gwasanaeth trên cyfatebol.

- 27.1 Os bydd gwaith peirianyddol wedi cael ei gynllunio ymlaen llaw, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw angen i ddarparu gwasanaeth bysiau yn lle trenau. Bydd y Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig y prynoch eich Tocyn(nau) ganddynt yn cynnwys unrhyw amseroedd estynedig neu wahanol yn y wybodaeth ar yr amserlen. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk) er mwyn i chi allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eich cynlluniau teithio. Pan fydd gwasanaethau yn lle trên ar gael, efallai na fyddwn yn gallu derbyn rhai mathau o fagiau, eitemau, anifeiliaid a beiciau.
- 27.2 Os yw'r newid ar fyr rybudd ac na allwch gwblhau eich taith oherwydd nad ydym yn gallu cludo eich bagiau, eich eitemau, eich anifeiliaid a/neu'ch beiciau mewn cerbyd ffordd, a'ch bod chi felly'n penderfynu peidio â theithio, bydd gennych hawl i hawlio ad-daliad am eich Tocyn(nau) dan Amodau 30.1 – 30.4 heb unrhyw dâl gweinyddol.
- 27.3 Pan fyddwch chi'n hawlio, dylech nodi amser gadael y trên roeddech chi'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer y daith yn ôl yr amserlen a darparu unrhyw Docynnau a oedd yn ddilys ar gyfer y daith.
- 27.4 Os ydych chi'n hawlio iawndal oherwydd oedi yn eich taith yn lle trên, penderfynir ar eich iawndal yn ôl y gwahaniaeth amser rhwng yr union amser y cyrhaeddoch ben eich taith a'r amser cyrraedd ar yr amserlen sydd ar waith ar y diwrnod rydych chi'n teithio.
- 27.5 Ym mhob agwedd arall, mae'r Amodau hyn yn berthnasol i ddefnyddio gwasanaethau yn lle trenau.

**28. Beth sy'n digwydd pan aiff pethau o chwith?**

- 28.1 Rydyn ni eisiau i chi fod yn fodlon ar eich taith. Os oes gennych chi unrhyw broblem nad oes modd ei datrys yn foddhaol ar y pryd, mae pob Cwmni Trenau'n rhoi manylion am sut i wneud cwyn neu sylw ar ei wefan ac ar hysbysiadau mewn gorsafoedd ac ar drenau.
- 28.2 Pan fydd tarfu yn eich atal rhag cwblhau'r daith y mae eich Tocyn yn ddilys ar ei chyfer ac yn cael ei ddefnyddio ar ei chyfer, bydd unrhyw Gwmni Trenau, lle bo hynny'n rhesymol bosib, yn darparu ffyrdd eraill o deithio i'ch cyrchfan, neu os oes angen, yn darparu llety dros nos i chi.

- 28.3 Pan fydd gwasanaeth trên yn cael ei ganslo ar ôl i chi brynu eich Tocyn(nau), byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw eich opsiynau eraill ar gyfer teithio. Yn ogystal â'r dilysrwydd y mae gennych hawl awtomatig iddo drwy eich Tocyn, fel arfer mewn amgylchiadau o'r fath bydd hawl i chi deithio ar hyd at ddau drên cyn neu ddau drên ar ôl y gwasanaeth dan sylw, gan ddefnyddio'r un gweithredwr rydych chi wedi archeb eich tocyn ganddo. Os yw'r gwasanaethau'n llai aml o lawer ac nad yw hyn yn opsiwn addas, byddwn yn rhoi dewis arall priodol i chi. Fel arall, gallwch ofyn am ad-daliad llawn yn unol ag Amod 30.
- 28.4 Os yw'n debygol y bydd oedi o fwy na 60 munud gyda'ch trên, gallwch ddefnyddio eich Tocyn i wneud eich taith yn ddiweddarach yn amodol ar gyfyngiadau tebyg ar eich Tocyn. Ewch i wefan eich Cwmni Trenau neu cysylltwch â nhw'n uniongyrchol i gael manylion am sut mae cael Tocyn newydd.
- 28.5 Mewn amgylchiadau eraill, gall tarfu ar wasanaethau trenau olygu bod gennych hawl i gael iawndal neu ad-daliad ar eich Tocyn. Mae Rhan F yn egluro eich hawliau i gael ad-daliadau ac iawndal.
- 28.6 Os bydd oedi o fwy na 60 munud gyda'ch trên, mae'n bosib y bydd eich Cwmni Trenau, mewn rhai amgylchiadau, yn darparu prydau bwyd a lluniaeth i chi os ydynt ar gael ar y trên neu yn yr orsaf, neu os oes modd eu cyflenwi'n rhesymol, ac yn rhesymol mewn perthynas â'r amser aros.

## Rhan F: Eich Hawliau i gael Ad-daliad ac lawndal

### 29. Ad-daliadau ar docynnau rydych chi wedi dewis peidio â'u defnyddio neu sydd wedi cael eu defnyddio'n rhannol

29.1 Os byddwch chi'n prynu unrhyw Docyn(nau) ac yna'n dewis peidio â theithio, gallwch chi wneud cais am ad-daliad gan y manwerthwr gwreiddiol, oni bai bod telerau ac amodau eich Tocyn(nau) yn nodi fel arall. Rhaid i chi wneud hyn cyn i'ch Tocyn(nau) ddod yn ddilys ar gyfer teithio am y tro cyntaf. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol lle darperir tystiolaeth o ddiffyg defnydd neu ddefnydd rhannol y bydd ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir ar ôl i'r Tocyn ddod yn ddilys ar gyfer teithio yn cael eu hystyried, a rhaid eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r Tocyn(nau) ddod i ben. Yn achos Tocynnau a ddefnyddiwyd yn rhannol lle cytunir ar ad-daliad, fel arfer bydd didyniad yn cael ei wneud am deithio sydd eisoes wedi'i wneud.

**Gwybodaeth:** At ddiben Amod 29, mae tocyn yn dod yn ddilys i'w ddefnyddio o'r dyddiad cychwyn a ddangosir ar y tocyn. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyflwyno ceisiadau am ad-daliad o fewn 23:59 fan bellaf y diwrnod cyn i'r tocyn ddod yn ddilys ar gyfer teithio.

29.2 Gellir codi tâl gweinyddu, na fydd yn fwy na £5 y Tocyn (£10 y Tocyn yn achos Tocynnau Tymor, fel y nodir yn Rhan G); fodd bynnag, os yw hyn yn fwy na'r swm ad-daliad, ni fydd ad-daliad yn daladwy. Os yw oedi neu ganslo ar unrhyw ran o'ch taith yn rheswm na allech gwblhau'ch taith, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ar unrhyw Docynnau a gedwir ar gyfer y daith honno o dan Amod 30.1.

29.3 Bydd eich cais am ad-daliad yn cael ei brosesu cyn gynted a bo hynny'n rhesymol ymarferol, a bydd yr ad-daliad yn cael ei dalu o fewn mis i dderbyn eich cais. Caiff ceisiadau am ad-daliad eu hadolygu yn ôl amgylchiadau unigol ac yn amodol ar y telerau ac amodau ar y pwynt gwerthu. Gall ceisiadau a ystyrir yn dwyllodrus arwain at ymchwiliad pellach a gallent arwain at erlyniad.

29.4 Bydd y ffordd y bydd eich ad-daliad yn cael ei dalu yn dibynnu ar y ffordd y talwyd am eich Tocyn yn wreiddiol, fel y dangosir yn y tabl isod:

Dull talu	Dull ad-dalu
Arian parod	Arian parod neu, gyda'ch cytundeb chi, dull talu arall fel siec neu gredyd i'ch cyfrif banc
Siec (os derbynnir sieciau)	Arian parod, neu siec (a allai gynnwys dychwelyd eich siec) yn ôl disgrisiwn y manwerthwr
Cerdyn credyd neu ddebyd; PayPal	Credydwch gyfrif y cerdyn perthnasol.
Gwarant teithio ar drên	Credyd i'r cyfrif gwarant perthnasol.
Taleb taith drên	Talebau teithiau trên o werth cyfatebol neu arian parod yn ôl disgrisiwn y manwerthwr

### 30. Eich hawl i gael ad-daliad os bydd rhywbeth yn tarfu ar eich trên a'ch bod yn dewis peidio â theithio

30.1 Mae Amodau 30.1 - 30.4 yn berthnasol i bob Tocyn ar wahân i Docynnau Tymor.

Gallwch ddychwelyd Tocyn neu Docynnau heb ei ddefnyddio i'r manwerthwr gwreiddiol neu'r Cwmni Trenau y prynwyd y tocyn/tocynnau ganddynt, a byddwch yn cael ad-daliad llawn heb unrhyw ffi weinyddol, os byddwch chi'n penderfynu peidio â theithio oherwydd bod y trên roeddech chi'n bwriadu ei ddefnyddio:

- wedi'i ganslo,
- wedi'i oedi,
- wedi'i aildrefnu ar ôl i chi brynu Tocyn neu Docynnau,
- ni fydd eich archeb yn cael ei hanrhydeddu

Mae gennych hawl hefyd i gael ad-daliad o dan yr Amodau hyn os byddwch yn dechrau ar eich taith ond yn methu ei chwblhau oherwydd oedi i'ch gwasanaeth neu ei fod wedi cael ei ganslo, a'ch bod yn dychwelyd i'ch man cychwyn.

**GWYBODAETH:** Mae proses iawndal unigol ar gyfer Tocynnau Tymor pan na ellir teithio oherwydd tarfu ar wasanaethau neu ganslo gwasanaethau. Dylai deiliaid Tocyn Tymor fynd i [www.nationalrail.co.uk/season-tickets](http://www.nationalrail.co.uk/season-tickets) i gael manylion.

- 30.2 Wrth wneud cais am ad-daliad o dan yr Amod hwn, bydd angen i chi nodi'r dyddiad, yr amser a'r orsaf lle byddech chi wedi dechrau eich taith fel arall. Rhaid i chi ysgrifennu at y Cwmni Trenau i roi gwybod iddynt eich bod yn dymuno gwneud hawliad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad roeddech chi'n bwriadu teithio.
- 30.3 Bydd eich cais am ad-daliad yn cael ei brosesu heb oedi gormodol a bydd unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus yn cael ei dalu o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y cytunodd y Cwmni Trenau ar eich hawliad. Ein targed yw prosesu pob hawliad o fewn mis i'w derbyn.
- 30.4 Os oeddech chi wedi prynu'r Tocyn neu'r Tocynnau o Swyddfa Docynnau yn syth cyn roeddech chi'n bwriadu teithio, dylech allu cael yr ad-daliad hwn ar unwaith drwy'r un dull talu o'r Swyddfa Docynnau lle prynoch chi eich Tocyn neu Docynnau. Bydd y ffordd y bydd eich ad-daliad yn cael ei dalu yn dibynnu ar y ffordd y talwyd am eich Tocyn neu Docynnau yn wreiddiol, fel y dangosir yn y tabl isod:

Dull talu	Dull ad-dalu
Arian parod	Arian parod neu, gyda'ch cytundeb chi, dull talu arall fel siec neu gredyd i'ch cyfrif banc
Siec (os derbynnir sieciau)	Siec (a allai gynnwys dychwelyd eich siec)
Cerdyn credyd neu ddebyd; PayPal	Credyd i'r cyfrif perthnasol
Gwarant teithio ar drên Taleb taith drên	Credyd i'r cyfrif Gwarant perthnasol Talebau teithiau trên o'r un gwerth neu, gyda'ch cytundeb chi, dull talu arall fel siec neu gredyd i'ch cyfrif banc

### 31. Teithio mewn cerbyd dosbarth sylfaenol gyda thocyn dosbarth cyntaf

- 31.1 Os oes gennych chi Docyn dosbarth cyntaf a bod [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk) yn nodi bod y gwasanaeth trên rydych chi'n ei ddefnyddio yn cynnig llety dosbarth cyntaf, ond nad oes llety dosbarth cyntaf yn cael ei ddarparu pan fyddwch chi'n teithio neu nad oes lle ar gael fel arall, gallwch hawlio ad-daliad. Isafswm yr ad-daliad y bydd gennych hawl iddo fydd y gwahaniaeth rhwng pris y Tocyn dosbarth cyntaf a brynwyd a'r tocyn dosbarth safonol dilys rhataf sydd ar gael ar y pryd ar y gwasanaeth a ddefnyddiwyd gennych. Rhaid i chi gysylltu â'r Cwmni Trenau y gwnaethoch deithio gyda nhw i roi gwybod iddynt eich bod yn dymuno gwneud hawliad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y gwnaethoch chi deithio.
- 31.2 Os oes gennych chi Docyn Tymor dosbarth cyntaf, y swm isaf y bydd gennych hawl iddi fydd ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y tocyn dosbarth cyntaf a'r tocyn dosbarth safonol ar gyfer y daith dan sylw.

## 32. Hawlio iawndal am oedi a/neu ganslo gwasanaeth

**GWYBODAETH:** Mae Siarteri Teithwyr a gwefannau'r Cwmnïau Trenau yn nodi'r manylion ynghylch trefniadau iawndal, gan gynnwys sut mae gwneud hawliad a sut mae iawndal yn cael ei gyfrifo. Mae Cwmnïau Trenau'n cyhoeddi eu Siarter Teithwyr ar eu gwefannau a byddant yn arddangos gwybodaeth mewn gorsafoedd.

32.1 Os byddwch chi'n hwyrach yn cyrraedd pen eich taith o ganlyniad i oedi gyda gwasanaeth trên neu fod y gwasanaeth wedi'i ganslo, efallai y bydd gennych hawl i hawlio iawndal gan y Cwmni Trenau sy'n gyfrifol am yr oedi cyn cwblhau eich taith.

Gellir gwneud eich hawliad i unrhyw Gwmni Trenau roeddech chi'n defnyddio'u gwasanaethau i deithio, a fydd, yn anfon eich hawliad ymlaen at y Cwmni Trenau sy'n gyfrifol, os bydd angen.

Mae gennych hawl i gael iawndal os oedd yr oedi'n 60 munud neu'n hirach, ni waeth beth oedd ar fai. Mae'r iawndal yn seiliedig ar yr oedi yn yr amser y cyrhaeddoch yr orsaf ar ben eich taith, o'i gymharu â'r amser cyrraedd yn yr amserlen sydd ar waith ar y diwrnod rydych chi'n teithio.

**GWYBODAETH:** Mae iawndal am oedi yn seiliedig ar yr amserlen sydd ar waith ar y diwrnod teithio, fel sy'n cael ei dangos ar gynllunwyr teithiau National Rail a'r Cwmni Trenau, ac ar sgriniau gwybodaeth mewn gorsafoedd. Os oes amserlen newydd ar waith ar y diwrnod rydych chi'n teithio, er enghraifft oherwydd gwaith peirianyddol sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw, atgyweiriadau brys neu oherwydd rhagolygon o dywydd gwael, bydd iawndal yn seiliedig ar yr amserlen newydd honno. Bydd Cwmnïau Trenau bob amser yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw newidiadau gofynnol i amserlenni cyn gynted ag y bo modd gwneud hynny.

Gallwch wneud hawliad mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

32.1.1 drwy drefniadau'r diwydiant a ddarperir ar eu cyfer:

32.1.1.1 yn yr Amodau hyn; a/neu

32.1.1.2 yn Siarter Teithwyr y Cwmni Trenau perthnasol a/neu

32.1.2 drwy ddibynnu ar eich hawliau statudol, e.e. o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a'r Rheoliad Hawliau a Rhwymedigaethau Teithwyr Rheilffyrdd fel y mae'n berthnasol i gyfraith Prydain Fawr.

Fodd bynnag, ni allwch adfer yr un arian ddwywaith.

**GWYBODAETH:** Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn rhoi amryw o hawliau i ddefnyddwyr, e.e. hawliau lle nad yw gwasanaeth yn cael ei gyflawni gyda gofal a sgiliau rhesymol (gweler adran 49 y Ddeddf). I gael gwybodaeth am eich hawliau pan fyddwch yn teithio fel defnyddiwr, gan gynnwys o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, ewch i [www.gov.uk/consumer-protection-rights](http://www.gov.uk/consumer-protection-rights).

32.2 Ar gyfer hawliadau a wneir o dan drefniadau'r diwydiant (a nodir ym mharagraff 32.1.1 uchod) am golledion a achosir gan oedi a/neu ganslo gwasanaeth trên, ni allwch chi adfer mwy na chost eich Tocyn neu Docynnau. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gall Cwmni Trenau ystyried hawliadau am golledion eraill. Mater i'r Cwmni Trenau fydd penderfynu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn wahanol i'ch hawliau cyfreithiol a nodir ym mharagraff 32.1 uchod.

Os ydych chi'n dymuno gofyn i'r Cwmni Trenau ystyried gwneud taliad dewisol, dylech ysgrifennu at y Cwmni Trenau yn y lle cyntaf i'r cyfeiriad sydd ar gael ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk) neu drwy ffonio 0345 7 48 49 50. Sylwch nad yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol (gweler paragraff 32.1.2).

### 33. Sut mae gwneud hawliad o dan drefniadau'r diwydiant

33.1 Er mwyn gwneud hawliad o dan drefniadau'r diwydiant a nodir ym mharagraff 32.1.1 uchod, rhaid i chi gyflwyno eich hawliad i'r Cwmni Trenau o fewn 28 diwrnod i gwblhau'r daith (oni bai fod y Cwmni Trenau'n ymestyn y dyddiad cau hwnnw).

Bydd angen i chi nodi amser gadael arfaethedig y trên neu'r trenau roeddech chi'n bwriadu eu defnyddio ar gyfer eich taith a darparu Tocyn neu Docynnau neu awdurdodiad arall i deithio a oedd yn ddilys ar gyfer y daith gyfan honno. Bydd Cwmni Trenau'n caniatáu i chi gadw unrhyw Docynnau ar ôl eu defnyddio at y diben hwn. Mae'r iawndal yn seiliedig ar yr oedi yn yr amser y cyhaeddoch yr orsaf ar ben eich taith, o'i gymharu â'r amser cyrraedd yn yr amserlen sydd ar waith ar y diwrnod rydych chi'n teithio.

33.2 Os oes gennych hawliad neu gŵyn am eich taith, bydd y Cwmni Trenau y byddwch chi'n cysylltu â nhw'n eich helpu naill ai drwy ddelio â'r mater eu hunain neu drwy drosglwyddo'r mater i'r Cwmni Trenau, y Darparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd neu drydydd parti neu berson(au) eraill a ddarparodd y nwyddau neu'r gwasanaethau dan sylw. Bydd hawliadau'n cael eu hystyried heb oedi gormodol a bydd unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus yn cael ei dalu o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y cytunodd y Cwmni Trenau ar eich hawliad. Y targed yw prosesu pob hawliad o fewn mis i'w derbyn.

33.3 Er bod swm yr iawndal a gynnigir yn amrywio yn ôl Cwmni Trenau, os byddwch chi'n cyrraedd yr orsaf ar ben eich taith 60 munud neu fwy yn hwyr, bydd gennych chi hawl i gael iawndal nad yw'n llai na'r hyn a nodir yn y tabl isod:

Tocyn sydd gennych chi	Swm sy'n daladwy
Tocyn Unffordd, neu Docyn Dwyffordd gyda'r oedi ar y daith gyntaf a'r daith yn ôl	50% o'r pris a dalwyd
Tocyn Dwyffordd gydag oedi ar y daith gyntaf neu'r daith yn ôl	50% o'r pris a dalwyd am y gyfran berthnasol o'r daith
Tocyn Tymor	Mae'r disgownt neu'r trefniadau iawndal yn Siarter Teithwyr y Cwmni Trenau dan sylw yn berthnasol

**GWYBODAETH:** I wneud hawliad o dan drefniadau'r diwydiant, y cyfan y mae angen i chi ei esbonio yw bod oedi wedi digwydd. Nid oes rhaid i chi brofi mai'r Cwmni Trenau oedd ar fai am yr oedi.

Efallai na fydd yn rhaid i Gwmni Trenau dalu iawndal o dan yr Amod hwn os oes llai na 60 munud o oedi a bod achos yr oedi y tu hwnt i reolaeth y diwydiant rheilffyrdd yn llwyr. Bydd Siarter Teithwyr pob Cwmni Trenau'n nodi unrhyw eithriadau sy'n berthnasol i hawliadau o'r fath mewn perthynas â'u gwasanaethau. Os yw'r oedi'n 60 munud neu fwy, mae gennych hawl i iawndal beth bynnag fo'r bai.

33.4 Os ydych chi wedi penderfynu peidio â theithio a hawlio ad-daliad llawn yn unol ag Amod 30, ni allwch wedyn hawlio iawndal am oedi o dan y cymal hwn drwy Siarter Teithwyr Cwmni Trenau.

#### **34. Sut bydd eich iawndal yn cael ei dalu**

34.1 Gall dulliau iawndal gynnwys talu gyda siec neu daliad drwy drosglwyddiad banc (y cyfeirir ato fel taliad BACS fel arfer); drwy ad-daliad i'ch cerdyn debyd neu gredyd (mae pob un o'r tri hyn yn "ddewis arian"); neu mewn talebau teithio ar y trê. Bydd eich opsiynau, a fydd yn cynnwys o leiaf un "dewis arian", yn amrywio o un Cwmni Trenau i'r llall, a byddant yn cael eu dangos wrth i chi hawlio. Os achoswyd yr oedi gan nam ar ran y Cwmni Trenau, mae gennych hawl i daliad yn yr un modd ag y talwyd am eich Tocyn oni bai eich bod yn cytuno i ddull talu arall.

34.2 Os ydych chi'n cael taliad mewn talebau teithio ar drenau, gallwch eu defnyddio i dalu'n llawn neu'n rhannol am Docynnau a brynir yn swyddfa Docynnau unrhyw Gwmni Trenau sydd â staff, ar gyfer unrhyw daith ar drenau ar wasanaethau'r Cwmnïau Trê. Mewn rhai achosion, gallai hefyd fod yn bosib eu cyfnewid am arian yn un o swyddfeydd Tocynnau'r Cwmni Trenau a'u rhoddodd, a nodir pan fyddwch chi'n hawlio a yw'r opsiwn hwn ar gael i chi.

#### **35. Hawliadau eraill yn erbyn cwmni trenau**

35.1 Os oes angen i chi wneud hawliad yn erbyn Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd am anaf personol neu unrhyw golled neu ddifrod i eiddo, neu hawliad neu gŵyn sy'n codi o dan y Siarter Teithwyr neu'r Amodau hyn, dylech ysgrifennu at y Cwmni Trenau neu'r Darparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd perthnasol yn y lle cyntaf.

35.2 Os nad ydych chi'n fodlon ar ganlyniad eich hawliad yn erbyn Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Rheilffyrdd yn [www.nationalrail.co.uk/RailOmbudsman](http://www.nationalrail.co.uk/RailOmbudsman) neu [www.x.com/RailOmbudsman](http://www.x.com/RailOmbudsman) neu 0330 094 0362.

35.3 Sylwch nad yw Cwmni Trenau'n gyfrifol am y canlynol:

35.3.1 unrhyw golledion sy'n digwydd wrth i chi deithio ar drenau unrhyw Gwmni Trenau arall;

35.3.2 parti arall yn peidio darparu nwyddau neu wasanaethau;

35.3.3 unrhyw golledion sy'n digwydd tra byddwch chi'n defnyddio'r nwyddau neu'r gwasanaethau eraill hynny.

Fodd bynnag, bydd pob Cwmni Trenau yn eich helpu os oes gennych chi hawliad neu gŵyn am eich taith, naill ai drwy ddelio â'r mater dros eu hunain neu drwy drosglwyddo'r mater i'r Cwmni(au) Trenau, y Darparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd neu drydydd parti neu berson(au) arall a ddarparodd y nwyddau neu'r gwasanaethau dan sylw.

## Rhan G: Amodau Arbennig sy'n Berthnasol i Docynnau Tymor

### 36. Cyflwyniad

- 36.1 Mae Rhan G o'r Amodau hyn yn berthnasol i Docynnau Tymor yn unig. Mewn rhai achosion, mae rheolau arbennig yn berthnasol i Docynnau Tymor sy'n ddilys am fis neu fwy – nodir hyn yn glir lle bo angen.
- 36.2 Mae Tocyn Tymor yn rhoi hawl i'r deiliad a enwir deithio'n ddigyfyngiad ar wasanaethau trên rhwng gorsafoedd penodol neu mewn parthau daearyddol penodol yn ystod y cyfnod hyd at y dyddiad y daw'r Tocyn Tymor ben, gan gynnwys y dyddiad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i ddechrau, i dorri eich taith neu ailafael ynddi, fel y disgrifir yn Amod 16.2. Dim ond y person y cafodd ei gyhoeddi iddo, neu ar ei ran, sy'n gallu ei ddefnyddio ac ni ellir ei drosglwyddo oni bai fod y Cwmni Trenau sydd wedi ei gyhoeddi yn cymeradwyo hynny'n benodol.
- 36.3 Oni bai eich bod wedi cael cyngor penodol fel arall wrth ei brynu, rhaid cael cerdyn-llun sy'n dangos gwir debygrwydd i'r defnyddiwr i gyd-fynd â'r Tocyn Tymor. Gellir cael cardiau llun yn rhad ac am ddim mewn swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd sydd â staff pan fyddwch chi'n dangos llun maint pasbort.
- 36.4 Pan fyddwch chi'n prynu Tocyn Tymor am y tro cyntaf sy'n ddilys am gyfnod o fis neu fwy, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais, a chedwir cofnod o'ch manylion a manylion y Tocyn(nau) Tymor rydych chi'n eu prynu. Mae hyn yn ein galluogi i roi mwy o gymorth i chi os caiff eich Tocyn Tymor ei golli neu ei ddwyn, neu os bydd angen i chi wneud hawliad am oedi o dan Siarter Teithwyr Cwmni Trenau.

**Mae eich tocyn tymor yn ddogfen werthfawr a dylid gofalu amdano'n ofalus iawn.**

### 37. Tocynnau tymor wedi'u difrodi neu wedi'u colli

- 37.1 Os caiff Tocyn Tymor dilys ei ddifrodi, nad oes modd ei ddarllen yn hawdd mwyach, neu os nad yw'n gweithio mewn gatiâu Tocynnau awtomatig mwyach, byddwn yn ei gyfnod yn ddi-dâl. Dylech ofyn i'r manwerthwr y gwnaethoch brynu eich Tocyn Tymor ganddo yn wreiddiol wneud hyn i chi.
- 37.2 Mae trefniadau gwahanol fel arfer yn berthnasol ar gyfer newid Cardiau Clyfar a ddifrodwyd neu sy'n ddiffygiol, ac eglurir y rhain i chi pan fyddwch chi'n cael eich Cerdyn Clyfar.

### 38. Tocyn Tymor neu Gerdyn Llun ddim ar gael i'w archwilio

- 38.1 Os nad ydych chi'n gallu dangos Tocyn Tymor neu unrhyw gerdyn llun sydd ei angen gyda Tocyn Tymor pan fydd staff neu asiantau awdurdodedig Cwmni Trenau'n gofyn amdano, byddwch chi'n cael eich trin fel petaech chi wedi mynd ar drên heb Docyn dilys, a bydd Amod 9 yn berthnasol.
- 38.2 Os oes gennych chi Docyn Tymor a/neu gerdyn-llun dilys ond nad oeddech chi'n gallu ei gyflwyno pan ofynnwyd i chi wneud hynny oherwydd eich bod wedi anghofio ei gario ar y daith benodol honno neu wedi'i golli, gall y Cwmni Trenau dan sylw ddefnyddio eu disgresiwn i ad-dalu unrhyw docyn neu Docyn Cosb a dalwyd amdano yn unol ag Amod 9, llai ffi weinyddol heb fod yn fwy na £10.
- 38.3 Er mwyn hawlio ad-daliad o'r fath, bydd angen i chi roi eich Tocyn Tymor (a'r cerdyn-llun os yw'n berthnasol) i'r manwerthwr y prynoch chi'r tocyn ganddynt, ynghyd â'r Tocynnau ychwanegol rydych chi wedi'u prynu neu unrhyw hysbysiadau Tocynnau Cosb.

38.4 Ni fydd mwy na dau hawliad o'r fath yn cael eu hystyried mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ni waeth faint o Docynnau Tymor a brynwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

### **39. Tocynnau Tymor Dyblyg**

39.1 Os byddwch chi'n colli neu'n anghofio lle rydych wedi rhoi Tocyn Tymor sy'n ddilys am fis neu fwy, neu os caiff ei ddwyn, bydd y Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig y prynoch chi'r tocyn ganddo, yn trefnu i roi Tocyn Tymor dyblyg ar yr amod:

39.1.1 eich bod yn rhoi gwybod i chi ei golli cyn gynted ag y gallwch chi'n rhesymol ac, os oes angen, eich bod yn rhoi esboniad rhesymol am ei golli (efallai y bydd rhai Cwmnïau Trenau'n gofyn i chi lenwi ffurflen yn egluro'r rheswm dros ei golli);

39.1.2 eich bod yn cytuno i ddychwelyd y Tocyn Tymor a gollwyd i'r manwerthwr ar unwaith os byddwch yn dod o hyd iddo wedyn;

39.1.3 eich bod yn talu ffi weinyddol, na fydd yn fwy na £20, i'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig.

39.2 Os byddwch chi wedyn yn colli neu'n anghofio lle rydych chi wedi rhoi eich Tocyn(nau) Tymor dyblyg neu os caiff ei ddwyn, yna bydd modd cyflwyno Tocyn(au) Tymor dyblyg arall ar yr un sail â'ch Tocyn Tymor dyblyg cyntaf. Fodd bynnag, efallai y gofynnir i chi ddod i gyfarfod gyda'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig dan sylw i egluro'r amgylchiadau lle collwyd eich Tocyn(nau) Tymor dyblyg. Mae Cwmnïau Trenau wedi cytuno ar God Ymarfer ar gyfer cyfarfodydd o'r fath, ac mae copi ohono ar gael yn Atodiad C.

39.3 Os colloch chi eich Tocyn Tymor dyblyg o ganlyniad i ddwyn, lladrad, tân neu amgylchiadau eithriadol eraill y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu, y gwasanaeth tân neu sefydliad priodol arall, dylech allu cael cadarnhad o'r amgylchiadau gan yr awdurdodau perthnasol (e.e., rhif trosedd gan yr heddlu) a darparu cadarnhad o hynny i'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig a roddodd y Tocyn Tymor dyblyg i chi.

39.4 Mae cwmnïau trenau'n cadw'r hawl i wrthod rhoi Tocynnau Tymor dyblyg os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn dwyllodrus.

### **40. Ad-daliadau am Docynnau Tymor**

40.1 Os nad oes angen eich Tocyn Tymor arnoch mwyach, efallai y bydd gennych hawl i gael ad-daliad gan y Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig y prynoch y tocyn ganddo. Yn y lle cyntaf, dylech ddychwelyd eich Tocyn Tymor i'r Cwmni Trenau neu'r Manwerthwr Trwyddedig perthnasol yn gofyn am ad-daliad.

40.2 Bydd eich ad-daliad yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad y byddwch yn dychwelyd y Tocyn Tymor. Bydd yr ad-daliad yn cael ei gyfrifo drwy ddiynnu'r gost o ddychwelyd un daith ddwyffordd ar gyfer pob diwrnod o'r dyddiad cychwyn ar y Tocyn Tymor hyd at y diwrnod y caiff ei ddychwelyd, a thâl gweinyddol (heb fod yn fwy na £10).

**GWYBODAETH:** Mae Tocynnau Tymor hirach yn elwa o lefel uwch o ddisgownt na Thocynnau Tymor byrrach.

**ENGHRAIFFT:** Os byddwch chi'n dychwelyd eich Tocyn Tymor misol ar ôl 9 diwrnod, byddwn yn didynnu cost Tocyn Tymor 7 Diwrnod a 2 Docyn dwyffordd un diwrnod a thâl gweinyddol o'ch ad-daliad.

- 40.3 I fod yn gymwys i gael ad-daliad ariannol:
- 40.3.1 Rhaid i docynnau Tymor Saith Diwrnod fod ag o leiaf dri diwrnod arall o ddilysrwydd yn weddill, neu
  - 40.3.2 Rhaid i Docynnau Tymor sy'n ddilys am rhwng un a deg mis fod yn ddilys am o leiaf saith diwrnod arall.
- 40.4 Nid yw Tocynnau Tymor Blynyddol yn gymwys i gael ad-daliad ariannol ar ôl deg mis a deuddeg diwrnod.
- 40.5 Os oeddech chi'n sâl ac, o ganlyniad, yn methu gofyn am ad-daliad ar eich Tocyn Tymor pan wnaethoch chi roi'r gorau i'w ddefnyddio, byddwn yn cynnig ad-daliad i chi o'r dyddiad y dechreuodd eich salwch, ar yr amod eich bod yn darparu tystysgrif feddygol neu dystiolaeth arall o'ch salwch.
- 40.6 Os oes angen ad-daliad arnoch ar Docyn Tymor dyblyg, efallai y bydd y Cwmni Trenau'n gofyn am wybodaeth ychwanegol (e.e. tystiolaeth o gyfeiriad newydd, swydd newydd, diswyddiad, neu fod gan y deiliad salwch hirdymor) a/neu efallai y gofynnir iddo fynychu cyfarfod gyda'r Cwmni Trenau dan sylw. Mae Cwmnïau Trenau wedi cytuno ar God Ymarfer ar gyfer cyfarfodydd o'r fath, ac mae copi ohono ar gael yn Atodiad C.
- 40.7 Mae Cwmnïau Trenau'n cadw'r hawl i wrthod rhoi ad-daliadau ar Docynnau Tymor dyblyg os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn dwyllodrus.
- 41. Cyfnewid Tocyn Tymor am un arall**
- 41.1 Gallwch gyfnewid eich Tocyn Tymor am un arall sy'n cynnwys taith wahanol neu ddsbarth gwahanol o deithio ar yr amod bod y Tocyn Tymor gwreiddiol yn dal yn ddilys am fis neu ragor a'i fod yn dal yn ddilys am saith diwrnod arall. Yn yr achos hwn, dim ond y gwahaniaeth mewn pris rhwng eich Tocyn Tymor gwreiddiol a'r un newydd y bydd angen i chi ei dalu, ar sail nifer y diwrnodau o ddilysrwydd sy'n weddill ar eich Tocyn Tymor gwreiddiol.
- 41.2 Os yw eich Tocyn Tymor newydd ar gyfer taith ratach neu ddsbarth teithio rhatach, bydd gennych hawl i gael ad-daliad ar y Tocyn Tymor gwreiddiol, ar sail nifer y diwrnodau o ddilysrwydd sy'n weddill ar eich Tocyn Tymor gwreiddiol ar yr adeg y byddwch yn gofyn i gael newid eich Tocyn Tymor.
- 41.3 Rhaid i'ch Tocyn Tymor newydd ddechrau bod yn ddilys ar y diwrnod ar ôl i'r Tocyn Tymor gwreiddiol gael ei gyflwyno a rhaid iddo ddod i ben ar yr un dyddiad â'r Tocyn Tymor gwreiddiol. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi weinyddol.

## Rhan H: Eiddo Coll

### 42. Perchnogaeth

42.1 Ni fydd eiddo sy'n cael ei ganfod ar drên neu ar safle Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd yn cael ei drin fel eiddo i'r sawl sy'n dod o hyd iddo a rhaid ei drosglwyddo cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib i aelod o staff y Cwmni Trenau neu'r Ddarparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd.

42.2 Bydd Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaeth Rheilffyrdd yn cymryd gofal rhesymol o unrhyw fagiâu, eitemau, anifeiliaid neu feiciau sy'n cael eu cadw'n ddiogel ar ôl cael eu gadael yn ei drenau neu ar ei safle a byddant yn gwneud ymdrech resymol i gysylltu â'r perchennog.

42.3 Er mwyn sicrhau bod y rheilffordd yn cael ei gweithredu'n ddiogel ac yn effeithlon, gall Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd gyfyngu ar eich mynediad at drenau neu eiddo er mwyn canfod unrhyw eiddo rydych chi wedi'i adael ar ôl ond, os bydd angen, bydd yn gwneud trefniadau eraill i'w canfod.

### 43. Archwilio a gwaredu

Os yw eiddo'n cael ei adael ar drên neu ar eiddo Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd, mae ganddynt yr hawl i'w agor ac archwilio'r cynnwys cyn ei symud i le diogel. Gallant, heb fod yn atebol, symud neu waredu unrhyw eiddo a allai, yn eu barn hwy, achosi difrod neu anaf neu beri anhwylostod i staff neu deithwyr.

### 44. Ffioedd

44.1 Gall Cwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd godi tâl (heb fod yn fwy na £2 y diwrnod fesul eitem) am storio eiddo a (heb fod yn fwy na £30 yr eitem) am ddychwelyd eiddo gan y perchennog yn dibynnu ar y canlynol:

44.1.1 y math o eiddo;

44.1.2 am ba hyd y cafodd ei gadw.

### 45. Eiddo heb ei hawlio

Bydd unrhyw eiddo sy'n cael ei gludo mewn ffordd ddiogel gan Gwmni Trenau neu Ddarparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd nad yw wedi cael ei gasglu o fewn tri mis yn cael ei werthu neu ei waredu fel arall a gellir cadw unrhyw arian o'r gwerthiant. Mae'n bosib y bydd eitemau darfodus yn cael eu gwaredu'n gynt.

## Atodiad A:

### Rhestr o Gwmnïau Trenau y mae Amodau Teithio National Rail yn berthnasol iddynt ar 1 Ebrill 2026

Arriva Rail London Limited Limited	(yn masnachu fel “London Overground” c2c Railway (yn masnachu fel “c2c”))
Caledonian Sleeper Limited Sleeper”) East Coast Trains Limited	(yn masnachu fel “Caledonian (yn masnachu fel “Lumo”))
First Greater Western Limited	(yn masnachu fel “Great Western Railway”)
First Trenitalia West Coast Rail Limited	(yn masnachu fel “Avanti West Coast”)
GA Trains Limited	(yn masnachu fel “Greater Anglia” a “Stansted Express”)
Govia Thameslink Railway Limited	(yn masnachu fel “Gatwick Express” a “Great Northern” a “Southern” a “Thameslink”)
Grand Central Railway Company Limited	(yn masnachu fel “Grand Central”)
GTS Rail Operations Limited	(yn masnachu fel “Elizabeth line”)
Hull Trains Company Limited	(yn masnachu fel “Hull Trains”)
London North Eastern Railway Limited	(yn masnachu fel “London North Eastern Railway” a “LNER”)
Merseyrail Electrics 2002 Limited	(yn masnachu fel “Merseyrail”)
Northern Trains Limited	(yn masnachu fel “Northern”)
ScotRail Trains Limited	(yn masnachu fel “ScotRail”)
SE Trains Limited	(yn masnachu fel “Southeastern”)
South Western Railway Limited	(yn masnachu fel “South Western Railway” ac “Island Line”)
The Chiltern Railway Company Limited	(yn masnachu fel “Chiltern Railways”)
TransPennine Trains Limited	(yn masnachu fel “TransPennine Express”)
Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig	(yn masnachu fel “Trafnidiaeth Cymru” a “Rheilffyrdd TrC”)
Transport UK East Midlands Limited	(yn masnachu fel “East Midlands Railway”)
WM Trains Limited	(yn masnachu fel “London Northwestern Railway” a “West Midlands Railway”)
XC Trains Limited	(yn masnachu fel “CrossCountry”)

Mae rhestr gyfredol ar gael mewn swyddfeydd Tocynnau gorsafoedd, swyddfeydd telewerthu, gwefan National Rail ac asiantau teithio sydd wedi'u trwyddedu i werthu Tocynnau National Rail. Yn y manau hyn, byddwch chi hefyd yn gallu cael rhifau ffôn a chyfeiriadau ar gyfer gohebu â phob un o'r cwmnïau uchod.

## Atodiad B:

### Diffiniadau

Yn y contract hwn, mae:

<b>“Galwad”</b>	yn golygu stop wedi'i drefnu ar gyfer gwasanaeth trên mewn gorsaf sy'n caniatáu i deithwyr ddod oddi ar y trên yn ogystal â mynd ar y trên hwnnw yn yr orsaf honno, fel y'i diffinnir yn yr Amserlen National Rail;
<b>“Amodau”</b>	yn golygu telerau ac amodau'r contract hwn, a nodir yn Rhan C i Ran H o'r ddogfen hon, ac eithrio'r testun yn y paneli gwybodaeth.
<b>“Manwerthwr Trwyddedig”</b>	yn golygu sefydliad sydd wedi'i awdurdodi a'i Drwyddedu i werthu Tocynnau gan Gwmni Trenau neu Gymdeithas y Cwmnïau Trenau (RDG);
<b>“Sgwter Symudedd”</b>	yn golygu cerbydau “dosbarth 2” a “dosbarth 3” fel y diffinir yn <a href="http://www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules/classes">www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules/classes</a> ;
<b>“National Rail Enquiries”</b>	yn golygu'r wefan a ddarperir yn <a href="http://www.nationalrail.co.uk">www.nationalrail.co.uk</a> a'r gwasanaeth ymholiadau ffôn cysylltiedig sydd ar gael drwy ffonio 03457 48 49 50;
<b>“Rhwydwaith National Rail”</b>	yn golygu'r rhwydwaith o reilffyrdd y mae Cwmnïau Trenau'n gweithredu gwasanaethau rheilffordd rheolaidd i deithwyr arnynt;
<b>“Amserlen National Rail”</b>	yn golygu'r amserlen rheilffyrdd ar gyfer gwasanaethau trenau i deithwyr ym Mhrydain Fawr, a gyhoeddir gan Network Rail ac a ddarperir yn <a href="http://www.networkrail.co.uk">www.networkrail.co.uk</a> ;
<b>“Canllawiau Llwybro Cenedlaethol”</b>	yn golygu dogfen sy'n rhestru'r llwybrau dilys ar gyfer pob taith ar Rwydwaith Network Rail;
<b>“Cerdyn Oyster”</b>	yn golygu cerdyn sy'n perthyn i'r cynllun cerdyn clyfar electronig a weithredir gan Transport for London lle mae nifer o Gwmnïau Trenau'n cymryd rhan;
<b>“Siarter Teithwyr”</b>	yn golygu'r ddogfen o'r enw hwnnw neu debyg, a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Cwmni Trenau hwnnw;
<b>“Tocyn Cosb”</b>	yn golygu Tocyn Cosb a godir yn unol â Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 2018 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd); neu fel y caniateir o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall;
<b>“Hysbysiad Tocyn Cosb”</b>	yn golygu'r dderbynneg a roddir pan godir Tocyn Cosb;
<b>“Ombwdsmon Rheilffyrdd”</b>	yn golygu sefydliad annibynnol, nid-er-elw sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol am ddim i ymchwilio a dyfarnu ynghylch cwynion cwsmeriaid sydd heb eu datrys;

<b>“Cerdyn Rheilffordd”</b>	yn gerdyn (a allai gael ei storio ar ddyfais electronig mewn rhai achosion) sy'n caniatáu i deithwyr brynu Tocyn(nau) am bris gostyngol;
<b>“Darparwr Gwasanaethau Rheilffyrdd”</b>	yn golygu Network Rail, unrhyw sefydliad neu unigolyn (ac eithrio Cwmni Trenau) sy'n gweithredu gorsaf ac unrhyw berson neu sefydliad sy'n llogi cerbydau i Gwmni Trenau, ond nid yw'n cynnwys London Underground;
<b>“Is-ddeddfau'r Rheilffyrdd”</b>	yn cyfeirio at yr is-ddeddfau wedi'u cyhoeddi yn yn cyfeirio at yr is-ddeddfau wedi'u cyhoeddi yn <a href="http://www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws">www.gov.uk/government/publications/railway-byelaws</a> ;
<b>“Tocyn Tymor”</b>	yn golygu Tocyn sy'n cael ei werthu fel un sy'n caniatáu i chi deithio am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol neu fwy, neu unrhyw 8 diwrnod mewn cyfnod o 28 diwrnod;
<b>“Tocyn”</b>	<p>yn golygu unrhyw ddogfen neu gofnod ffisegol neu electronig sy'n rhoi hawl i deithiwr deithio ar Rwydwaith Network Rail rhwng y gorsafoedd neu o fewn y parthau a nodir gan ddefnyddio gwasanaethau un neu fwy o'r Cwmnïau Trenau. Gall dogfen neu gofnod electronig gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):</p> <p>Cerdyn Clyfar (gan gynnwys cerdyn Oyster neu ITSO); cerdyn talu neu gerdyn adnabod;</p> <p>ffôn symudol neu ddyfais tabled sydd wedi'i gwefru neu sydd ar gael i'w harddangos neu ei gwirio;</p> <p>dyfais electronig symudol arall sydd wedi'i gwefru ac sydd ar gael i'w harddangos neu ei gwirio;</p> <p>cronfa ddata, ar y cyd â Cerdyn Banc Digyswllt awdurdodedig sy'n cynnwys y symbol «)» a ddisgrifir yn hysbysiadau a chyhoeddiadau'r Cwmni Trenau fel un sy'n ddilys ar gyfer teithio ar eu gwasanaethau;</p> <p>awdurdod i deithio sy'n caniatáu defnyddio gwasanaeth trên yn amodol ar dalu am docyn fel y cynghorir ar adeg ei gyhoeddi.</p> <p>Mae'n bosib na fydd dogfennau neu gofnodion electronig yn dangos yr un wybodaeth â'r Tocynnau wedi'u hargraffu, ond bydd yr amodau ar gyfer defnyddio'r rhain yn egluro ymhle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon. Os oes gennych Sgwter Symudedd sy'n addas i'w ddefnyddio ar y ffordd, mae Tocyn hefyd yn dystiolaeth eich bod yn cael cario eich Sgwter Symudedd (lle mae Polisi Teithio Hygyrch y Cwmni Trenau'n caniatáu hynny – i gael rhagor o wybodaeth, darllenwch bolisi symudedd sgwteri'r Cwmni Trenau). Os ydych chi'n teithio gan ddefnyddio cyfuniad o Docynnau, rhaid defnyddio pob Tocyn yn unol â'r Amodau hyn;</p>

**“Cwmni Trenau”**

yn golygu cwmni sy'n gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr y mae'n ofynnol iddo roi'r Amodau hyn ar waith i bobl sy'n prynu Tocynnau, o dan amod y drwydded i deithwyr a roddir i'r cwmni gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Mae cyfeiriadau yn yr Amodau hyn at Gwmni Trenau hefyd yn ymestyn i asiantau awdurdodedig y cwmni hwnnw. Ceir rhestr o'r cwmnïau trenau hyn yn Atodiad A. Mae “Cwmnïau Trenau” yn golygu pob un neu fwy nag un o'r Cwmnïau hyn;

**“Tocynnau Parth”**

yw'r Tocynnau hynny sy'n caniatáu teithio mewn ardal ddaearyddol benodol yn unig.

## Atodiad C:

### Cod Ymarfer: Trefniadau ar gyfer Cyfweliadau ag Ymgeiswyr mewn Perthynas â Thocynnau Tymor Dyblyg

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan Gwmnïau Trenau a Manwerthwyr Trwyddedig ar gyfer cynnal cyfweliadau sy'n ymwneud â cheisiadau am Docynnau Tymor dyblyg neu ad-daliadau ar Docynnau Tymor dyblyg.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cefnogi'r darpariaethau yn Amodau Teithio National Rail. Mae gan y termau 'Cwmni Trenau' a 'Manwerthwr Trwyddedig' yr un ystyr yn y Cod Ymarfer hwn ag yn Amodau Teithio National Rail. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i bob Tocyn Tymor misol a hirach a brynir gan Gwmni Trenau neu Fanwerthwr Trwyddedig, y cyfeirir ato isod fel y '**Gwerthwr Tocynnau**'.

#### 1. Gofynion y broses gyfweld

- Pan wneir cais am gopi dyblyg arall o Docyn Tymor sy'n ddilys am fis neu fwy ac mae copi dyblyg eisoes wedi cael ei roi ar ei gyfer, efallai y bydd y **Gwerthwr Tocynnau'n** gofyn i'r ymgeisydd ddod i gyfweliad byr. Gall y **Gwerthwr Tocynnau** hefyd ofyn am gyfweliad lle mae angen ad-daliad ar Docyn Tymor dyblyg.
- Pwrpas y cyfweliad yw dilysu hawliad unrhyw deithiwr sy'n gwneud cais am Ail Docyn Tymor neu Docyn Tymor dyblyg arall, o fewn un flwyddyn galendr i gais blaenorol.
- Defnyddir y cyfweliad i gadarnhau amgylchiadau'r hawliad a dilysu unrhyw dystiolaeth ategol (er enghraifft, os oes lladrad wedi bod, rhif cyfeirnod trosedd).

#### 2. Y broses ar gyfer trefnu cyfweliad

Rhaid gwneud y cais am Docyn Tymor dyblyg i'r **Gwerthwr Tocynnau** a werthodd y Tocyn Tymor a gollwyd yn wreiddiol.

- Os bydd angen cynnal cyfweliad, rhoddir gwybod i'r teithiwr adeg gwneud y cais.
- Cynhelir y cyfweliad amser ac mewn man y bydd y **Gwerthwr Tocynnau** a'r ymgeisydd yn cytuno arno, a bydd yn cael ei gynnal o fewn wythnos ar ôl i'r ymgeisydd wneud cais am Docyn Tymor dyblyg, cyn belled fod yr ymgeisydd ar gael.

#### 3. Cynnal y cyfweliad

Ni fydd y cyfweliad yn para mwy na 15 munud o dan amgylchiadau arferol a bydd gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau'r amgylchiadau lle collwyd yr eitem. Os yw hyn yn ganlyniad i ddwyn, gofynnir am gyfeirnod trosedd.

#### 4. Ar ôl y cyfweliad

O fewn un diwrnod gwaith i'r cyfweliad, bydd y **Gwerthwr Tocynnau'n** bwrw ymlaen â'r cais oni bai fod ganddo sail dros gredu nad yw'r hawliad yn ddilys.

Mewn achosion o'r fath, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith a bydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn wythnos i'r penderfyniad. Os yw'r penderfyniad yn amodol ar ddarparu rhagor o dystiolaeth neu unrhyw gamau eraill, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am hyn, gan nodi fel y bo'n briodol pa gamau pellach y mae angen eu cymryd.

Bydd y **Gwerthwr Tocynnau'n** derbyn ceisiadau am ad-daliad am Docynnau trên a brynwyd ar gyfer yr un daith wrth aros am y Tocyn Tymor dyblyg. Bydd y rhain yn cael eu had-dalu heb unrhyw dâl gweinyddol ychwanegol.

**GWYBODAETH:** Mae'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd yn cynhyrchu Codau Ymarfer Cymeradwy er gwybodaeth i'r gweithredwyr trenau trwyddedig sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr ym Mhrydain Fawr. Nid yw'r Grŵp Cyflawni'n gorff rheoleiddio ac nid yw'n orfodol i gydymffurfio â Chodau Ymarfer Cymeradwy.

Hawlfraint Rail Settlement Plan Ltd 2026 Fersiwn 7 Cyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2026